Wales Office
Swyddfa Cymru

# Swyddfa Cymru

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2012-13

Wales Office
Swyddfa Cymru

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2012–13

(am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013)

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin
yn unol ag Adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau
a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Dŷ'r Cyffredindrwy
Orchymyn Ei Mawrhydi

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon
i Dŷ'r Arglwyddi drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

**Gorchmynnwyd eu hargraffu gan Dŷ'r Arglwyddi**

1 Gorffennaf 2013

HC 25 Llundain: Y Llyfrfa £21.25

Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o gyhoeddiadau Adrannol sydd, ynghyd â Main Estimates 2013–14, y ddogfen Public Expenditure: Statistical Analyses 2013, a Supply Estimates 2012–13: Supplementary Budgetary Information, yn dangos alldro'r Llywodraeth ar gyfer 2012–13 a gwariant arfaethedig ar gyfer 2013–14.

**© Hawlfraint y Goron 2013**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y drwydded hon yn http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu drwy anfon neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen cael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn, dylech eu hanfon atom ni yn wales.office@walesoffice.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.gov.uk/wales-office.

ISBN: 9780102952544

Argraffwyd yn y DU gan The Stationery Office Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

07/13

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau a ailgylchwyd.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 1** | **Rhagair gan y Gweinidog** | **1** |
| **Pennod 2** | **Datganiad y Cyfarwyddwr** | **3** |
| **Pennod 3** | **Cyflawniadau yn ôl Amcan** | **4** |
| **Pennod 4** | **Edrych ymlaen at 2013–14** | **24** |
| **Pennod 5** | **Sylwebaeth Rheoli** | **25** |
| **Pennod 6** | **Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus** | **27** |
| **Pennod 7** | **Adroddiad Tâl** | **32** |
| **Pennod 8** | **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu** | **42** |
| **Pennod 9** | **Datganiad ar Lywodraethu** | **43** |
| **Pennod 10** | **Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin** | **54** |
| **Pennod 11** | **Cyfrifon** | **57** |
| | Datganiad o Gyflenwad Seneddol | |
| | Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | |
| | Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | |
| | Datganiad o Lifau Arian | |
| | Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr | |
| | Nodiadau i'r Cyfrifon | |

# 1 Rhagair y Gweinidog

Dyma'r adroddiad blynyddol a chyfrifon cyntaf i mi ers dod yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Braint yw cael cynrychioli Cymru yn y Cabinet ac rwyf wedi ymrwymo i gynrychioli buddiannau Cymru'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae gwella seilwaith yn hanfodol ar gyfer tyfu economi Cymru. Yn y flwyddyn a aeth heibio mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n ddiflino i helpu i sicrhau nifer o brosiectau seilwaith o bwys yng Nghymru.

Roeddwn yn falch o glywed cyhoeddi'r ymrwymiad i drydaneiddio prif reilffordd y Great Western i Abertawe a rheilffyrdd Cymoedd Caerdydd. Roedd fy rhagflaenydd a minnau wedi gweithio'n galed ar draws Llywodraeth a chyda rhanddeiliaid i helpu i sicrhau'r prosiect pwysig hwn ac rwyf wrth fy modd o wybod y bydd yn mynd yn ei flaen. Yn yr un mis cyhoeddwyd ein hymrwymiad i adeiladu estyniad rheilffordd gorllewinol i Heathrow a fydd yn cysylltu De Cymru â phrif ganolfan trafnidiaeth awyr y DU am y tro cyntaf.

Ar ôl ymgymryd â swydd yr Ysgrifennydd Gwladol, estynnais groeso i nifer o'r darpar gynigwyr am brosiect Horizon Nuclear a braf iawn oedd gweld Hitachi yn sicrhau'r cytundeb. Mae pŵer niwclear newydd yn hanfodol i ddiogelu ynni'r DU a bydd datblygu Wylfa B yn helpu i sicrhau a chreu swyddi yn Ynys Môn am ddegau o flynyddoedd.

Mae fy ymweliad â De-ddwyrain Asia wedi dangos y cyfleoedd sydd gan Gymru i gystadlu'n rhyngwladol. Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi busnesau a Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n ceisio ennill eu lle mewn marchnadoedd tramor. Roeddwn yn falch o gwrdd â nifer o gwmnïau arloesol o Brydain, sawl un ohonynt o Gymru, sy'n gwneud hynny'n awr yn Japan, Fiet-nam a Hong Kong.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd y llynedd, byddwn yn symud ymlaen yn awr â newidiadau yn y dull o ethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddwn yn cyhoeddi Mesur Cymru drafft i fabwysiadu tymor penodol o bum mlynedd ar gyfer y Cynulliad, fel y bydd etholiadau'r Cynulliad yn llai tebygol o gyd-ddigwydd ag etholiadau seneddol yn y dyfodol. Bydd y Mesur yn rhoi mwy o ddewis i ymgeiswyr hefyd drwy adfer eu hawl i sefyll mewn etholaeth ac mewn rhanbarth yn etholiadau'r Cynulliad a bydd yn sicrhau na fydd unigolion yn gallu eistedd yn Aelodau o'r Senedd ac o'r Cynulliad yr un pryd.

Y flwyddyn ddiwethaf hefyd y cyhoeddwyd adroddiad cyntaf y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) ar ddatganoli pwerau cyllidol i'r Cynulliad ac i Lywodraeth Cymru. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad

pellach i mi ddechrau'r flwyddyn nesaf ar unrhyw newidiadau y mae'n ystyried bod eu hangen yn setliad datganoli Cymru.

Swyddfa Cymru yw un o Adrannau lleiaf y Llywodraeth ac mae wedi wynebu setliad ymestynnol dan yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Rydym wedi gostwng costau rhedeg yr Adran ac rydym mewn sefyllfa dda i allu cwrdd â'r setliad. Rydym wedi ymrwymo i ddod o hyd i'r arbedion effeithlonrwydd y mae eu hangen i gyrraedd ein targedau ar wariant.

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl staff ymroddedig yn Swyddfa Cymru am eu gwaith caled a'u dyfalbarhad, a hefyd i Stephen Crabb AS a'r Farwnes Randerson am eu cyfraniad rhagorol fel Is-ysgrifenyddion Seneddol yn yr Adran.

Y flwyddyn nesaf bydd Swyddfa Cymru yn canolbwyntio ar sicrhau mwy o fuddsoddi yn seilwaith Cymru ac ar gydweithio â busnesau i gael yr amodau iawn ar gyfer twf.

**Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS**
**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

# 2 Datganiad y Cyfarwyddwr

Rwyf yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa Cymru 2012–13.

Braint yw cael bod yn Gyfarwyddwr Dros Dro Swyddfa Cymru mewn cyfnod mor gyffrous. Yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r Adran wedi perfformio'n dda ar sail ei hamcanion craidd, sef hyrwyddo buddiannau economaidd Cymru, goruchwylio a chynnal y setliad datganoli a bod yn llais cryf dros Gymru o fewn y Llywodraeth. Ar yr un pryd rydym wedi ymdrechu i roi mwy o werth am arian. Rydym wedi llwyddo i fod yn fwy cynnil ac effeithlon, gan ostwng costau heb amharu ar ansawdd ein gwaith. Ni fuasai hyn yn bosibl oni bai am gefnogaeth, ymroddiad a phroffesiynoldeb y staff ym mhob rhan o Swyddfa Cymru. Mae'n bwysig i ni adeiladu ar y sail hon y flwyddyn nesaf wrth hyrwyddo buddiannau Cymru yn y Deyrnas Unedig.

**Glynne Jones**
**Cyfarwyddwr Dros Dro, Swyddfa Cymru**

# 3 Cyflawniadau yn ôl Amcan 2012–13

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae Swyddfa Cymru wedi adeiladu ar sail y llwyddiant a gafodd yn y flwyddyn flaenorol a oedd yn cynnwys sefydlu'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru a chyhoeddiadau am fuddsoddi sylweddol mewn seilwaith fel band eang a chynlluniau i drydaneiddio rheilffyrdd.

Mae'r Adran wedi parhau i ganolbwyntio ar economi Cymru gan roi'r flaenoriaeth uchaf i hynny. Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Swyddi gyntaf Swyddfa Cymru i hyrwyddo mentrau cyflogaeth sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig eu maint ar gyfer cyflogi pobl ifanc.

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi hybu buddsoddi yn seilwaith Cymru, gan gynnwys trydaneiddio prif reilffordd y Great Western hyd Abertawe, yr Orsaf Niwclear Wylfa newydd ac ehangu'r cynllun Band Eang Trefol a fydd yn sicrhau statws dinas uwch-gysylltiedig i Gasnewydd yn y dyfodol agos. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru ynghylch pob math o brosiectau buddsoddi ar gyfer y dyfodol gan gynnwys yr angen am ddatblygu achos busnes dan arweiniad lleol dros drydaneiddio Rheilffordd Gogledd Cymru, uwchraddio'r M4, y cyfleoedd i Borthladdoedd Cymru, a'r dichonoldeb o godi carchar newydd yng Ngogledd Cymru.

Heblaw am yr economi, mae Swyddfa Cymru wedi hybu pob agwedd ar Lywodraeth sy'n effeithio ar Gymru, a hefyd wedi hyrwyddo mentrau cymunedol lleol drwy Seminar y Gymdeithas Fawr a gynhaliwyd fis Tachwedd diwethaf.

Mae Swyddfa Cymru yn darparu cymorth ac adnoddau ar gyfer y Comisiwn annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru ('Comisiwn Silk'). Cyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad ar ran gyntaf ei gylch gwaith ym mis Tachwedd 2012, gan wneud 33 o argymhellion ynghylch gwella atebolrwydd ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Swyddfa Cymru yn cydweithio â Thrysorlys EM ac Adrannau Llywodraeth eraill i ystyried yr argymhellion yn fanwl.

Bellach mae Comisiwn Silk wedi symud ymlaen at ail ran ei waith – adolygu terfynau'r setliad datganoli ac argymell unrhyw newidiadau sy'n debygol o ddenu cefnogaeth eang. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno tystiolaeth fanwl i'r Comisiwn i gyfrannu at yr ail ran o'i waith, ac roedd Swyddfa Cymru wedi cyd-drefnu'r gwaith o ddrafftio'r dystiolaeth hon drwy gydweithio'n agos ag Adrannau ar draws Llywodraeth y DU.

Ar ôl cyhoeddi Papur Gwyrdd ym mis Mai 2012 ar drefniadau etholiadol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol, dechreuodd Swyddfa Cymru ar ymgynghoriad 12 wythnos o hyd a ddaeth i ben ym mis Awst. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2012

ac eglurodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru sut y byddwn yn symud ymlaen â'r mesurau arfaethedig mewn datganiad i'r Senedd ym mis Mawrth 2013.

Roedd gan Swyddfa Cymru ran allweddol yn y trafodaethau rhynglywodraethol ar ddiwygio cyllid a arweiniodd at y cyhoeddiad ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn Hydref 2012.

Swyddfa Cymru yw'r Adran yn Llywodraeth y DU sy'n darparu arbenigaeth ar setliad datganoli Cymru, a byddwn yn cynghori holl Adrannau Llywodraeth ar faterion datganoledig a materion sydd heb eu datganoli sy'n ymwneud â Chymru. Mae'r Adran wedi parhau i sicrhau bod deddfwriaeth seneddol yn llwyr adlewyrchu anghenion Cymru a'i bod yn gyson â'r setliad datganoli. Roedd goblygiadau i Gymru yn y rhan fwyaf o'r Mesurau yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, ac roedd ein cyfraniad at ddatblygu deddfwriaeth fel Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 yn sylweddol. Mae'r Adran wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru hefyd i ddatblygu ei deddfwriaeth gan gynnwys, er enghraifft, Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a'i chynigion ar gyfer rheoli cŵn peryglus. Rydym hefyd wedi parhau i gyfrannu at ddatblygu is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 lle'r oedd goblygiadau i Gymru.

Mae ymweliadau gweinidogol yn ffordd hanfodol o hyd o alluogi pobl a busnesau yng Nghymru i ymwneud yn uniongyrchol â Llywodraeth. Rydym wedi cynorthwyo ein Gweinidogion wrth iddynt deithio ledled Cymru, yn ogystal â hwyluso nifer mawr o ymweliadau gan Weinidogion Llywodraeth eraill.

# Mae Cynllun Busnes Swyddfa Cymru yn gosod pum amcan ar gyfer ein gwaith:

## *Amcan 1: Hyrwyddo economi Cymru a buddiannau economaidd Cymru*

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm Gweinidogol wedi canolbwyntio'n bennaf ar gryfhau a hybu economi Cymru. Mae Gweinidogion wedi manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo Cymru fel lle i wneud busnes, ac wedi cwrdd ac ymweld â busnesau ledled Cymru i wrando ar eu barn a'u profiadau er mwyn trafod mesurau ymarferol i hybu twf economaidd yng Nghymru.

***Seilwaith***

Nodwyd mai gwella seilwaith yw un o'r ffyrdd pwysicaf a mwyaf effeithiol o hybu twf economaidd a sicrhau cyfleoedd gwell i ddenu mewnfuddsoddi.

Fis Gorffennaf diwethaf cyhoeddasom y cynllun ar gyfer mwy o drydaneiddio ar brif reilffordd y Great Western rhwng Caerdydd ac Abertawe ac ar reilffyrdd Cymoedd De Cymru. Dyma'r buddsoddiad mwyaf sylweddol mewn seilwaith yng Nghymru ers degawdau, yn enwedig o'i ystyried ochr yn ochr â'r buddsoddiad ychwanegol mewn estyniad rheilffordd gorllewinol i Heathrow a fydd yn cysylltu De Cymru â phrif ganolbwynt trafnidiaeth awyr y DU am y tro cyntaf. Gweithiodd Swyddfa Cymru yn ddiflino drwy gydol 2012 â Llywodraeth ar bob lefel, â Network Rail a'r gymuned busnes i sicrhau'r buddsoddiad hwn, a bydd yn parhau i ddadlau o blaid gwelliannau pellach yn y rhwydwaith trafnidiaeth ym mhob rhan o Gymru.

Ym mis Hydref, cyhoeddodd Hitachi Cyf ei fod wedi prynu Horizon Nuclear Power a'i fod yn bwriadu bwrw ymlaen â chynlluniau i adeiladu adweithydd niwclear newydd yn y Wylfa yn Ynys Môn. Bydd y buddsoddiad yn cynnal miloedd o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn dod â buddion economaidd sylweddol i'r ardal leol. Mae wedi cwrdd â Hitachi ar sawl achlysur wedyn yn y wlad hon ac yn Japan i drafod y nifer mawr o gyfleoedd a fydd ar gael yn y gadwyn gyflenwi i gwmnïau yng Nghymru a'r DU yn ystod cyfnod adeiladu'r adweithyddion niwclear arfaethedig.

Mae Cymru wedi elwa hefyd o ymrwymiad y Llywodraeth i wella band eang ledled y wlad. Ar ôl cyhoeddi mai Caerdydd fydd y ddinas uwch-gysylltiedig gyntaf yng Nghymru, cyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2012 fod Casnewydd wedi llwyddo yn ei chais i ddod yn ddinas uwch-gysylltiedig. Bydd y buddsoddi mewn dinasoedd uwch-gysylltiedig dan y rhaglen Band Eang Trefol yn galluogi'r ddwy ddinas i gystadlu â phrif ddinasoedd digidol y byd a denu swyddi a buddsoddiadau newydd. Mae'r gwaith o gyflwyno'r prosiect Band Eang Gwledig yn parhau ledled Cymru hefyd. Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi ymweld â Bro Morgannwg, Casnewydd a sir Fynwy i weld sut y mae busnesau bach a chanolig eu maint yn benodol wedi elwa o gael defnyddio band eang cyflym iawn.

### *Ymgysylltu â busnesau*

Agwedd allweddol ar ddatblygu economi Cymru yw sicrhau bod barn busnesau yng Nghymru yn ystyriaeth ganolog mewn penderfyniadau gan Lywodraeth y DU. Ar ddechrau'r flwyddyn fe ehangwyd Grŵp Cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar Fusnes i gynnwys ystod ehangach o gynrychiolwyr busnes a sectorau busnes yng Nghymru. Bydd y grŵp yn canolbwyntio ar lunio cynigion y gellir eu cynnwys ym mholisi Llywodraeth y DU ac, yn y cyfarfod cyntaf o'r grŵp ar ei newydd wedd, ystyriwyd blaenoriaethau Cymru ar gyfer Cyllideb 2013, a gyflwynwyd i'r Trysorlys wedyn i'w hystyried.

Mae Gweinidogion wedi siarad mewn nifer o gyfarfodydd pwysig yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys seremoni wobrwyo Fast Growth 50, Cynhadledd Ynni Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Cymru, cinio mawreddog Siambr Fasnach Cymru Bangladesh a Phwyllgor CBI Gogledd Cymru.

Yn ogystal â hyn, mae Gweinidogion wedi manteisio ar bob cyfle i ddod i gysylltiad â busnesau wrth ddilyn eu rhaglen o ymweliadau rhanbarthol ac i weld sut y mae busnesau llwyddiannus yng Nghymru'n parhau i arloesi. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymweld ag Airbus, Toyota UK Manufacturing, General Dynamics a JCB Transmissions, ac wedi siarad â chynrychiolwyr busnesau sy'n aelodau o Glwb Busnes ITV Cymru.

### *Helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith*

Gan fod y nifer mwyaf erioed o bobl mewn gwaith yn y DU, mae Swyddfa Cymru wedi ymdrechu i sicrhau bod Cymru'n elwa o'r gwelliant mewn amodau economaidd. Ym mis Chwefror, cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr Uwchgynhadledd Swyddi gyntaf i Gymru yng Nghasnewydd. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yng nghwmni Prif Weinidog Cymru a Canolfan Byd Gwaith er mwyn dangos pa mor bwysig yw dull partneriaeth Cymru gyfan i ddelio â diweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Bydd uwchgynhadledd debyg yn cael ei chynnal yng Ngogledd Cymru.

### *Hyrwyddo Cymru mewn gwledydd tramor*

Mae Swyddfa Cymru wedi cymryd camau hefyd i hyrwyddo Cymru mewn gwledydd tramor ac wedi cynnal nifer o genadaethau yn ystod y flwyddyn. Ym mis Mai, aeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd ar ymweliad 5 diwrnod â De-ddwyrain Asia gan ymweld â Gwlad Thai, Cambodia a Singapôr lle'r oedd yn dyst i lofnodi contract rhwng Trysorlys Gwlad Thai a'r Bathdy Brenhinol; agorodd swyddfa UKTI yng Nghambodia; roedd yn gynrychiolydd i'r DU yn y gynhadledd dwristiaeth ryngwladol yn Bangkok; a chanmolodd y cydweithio parhaus ag Airbus ar safle cydosod injanau newydd Rolls-Royce yn Singapôr. Ymwelodd hefyd â phencadlys Airbus yn Ffrainc i drafod pwysigrwydd y gweithlu yng Nghymru yn ei weithrediadau rhyngwladol.

Yn ystod y Gemau Olympaidd yr haf diwethaf, cynhaliwyd digwyddiad mawreddog gan yr Ysgrifennydd Gwladol i hyrwyddo Cymru fel un o'r lleoedd gorau i fuddsoddi a chreu swyddi. Roedd y digwyddiad yn un o gyfres o seminarau busnes a gynhaliwyd drwy gydol y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd i hyrwyddo Prydain Fawr ledled y byd.

Yn fwyaf diweddar, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cwblhau taith fasnach a buddsoddi i Asia – gan ymweld â Japan, Fiet-nam a Hong Kong. Roedd ei gyfarfodydd yn hybu'r ymgyrch 'GREAT' Britain, a oedd yn hyrwyddo'r DU fel lle sy'n 'agored i fusnes', yn adeiladu partneriaethau buddsoddi strategol, yn enwedig yn y marchnadoedd sy'n datblygu, ac yn cymell myfyrwyr Asiaidd i astudio yn y DU. Estynnwyd croeso gan Lysgennad Prydain yn Japan i'r Ysgrifennydd Gwladol, Llywydd ac uwch-swyddogion gweithredol Hitachi i drafod y cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a'r prosesau adeiladu ar gyfer yr orsaf niwclear newydd yn yr Wylfa yn Ynys Môn; a buddsoddi ehangach yn seilwaith y DU. Yn Fiet-nam, arweiniodd ddirprwyaeth y DU i gwrdd â SEAMEO (Southeast Asian Ministers of Education Organization) lle y llofnododd y cytuniad ffurfiol a oedd yn galluogi'r DU i ddod yn Aelod Cyswllt. Pen y daith oedd Hong Kong, lle y cynhaliodd gyfres o ddigwyddiadau i fuddsoddwyr busnes a sefydliadau addysg uwch i hyrwyddo cyfleoedd i fuddsoddi yng Nghymru, a ledled y DU.

### *Sector Addysg Uwch*

Rôl y sector addysg uwch yng Nghymru wrth symbylu twf economaidd oedd un o'r pynciau a drafodwyd mewn digwyddiad bord gron gydag Is-gangellorion y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a gadeiriwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac a gefnogwyd gan yr Is-ysgrifennydd Seneddol y Farwnes Randerson. Yn dilyn y digwyddiad bord gron hwn, ymwelodd y Gweinidog â Phrifysgol Abertawe lle y gwelodd y bartneriaeth sy'n cael ei meithrin ar hyn o bryd rhwng y brifysgol, Tata Steel yn Ewrop a BP, ar ôl cael grant o £38 miliwn gan Gronfa Fuddsoddi Partneriaethau Ymchwil y DU (UK RPIF) at ddatblygu cyfleusterau a phrosiectau newydd mewn meysydd sy'n cynnwys gwyddorau bywyd, ynni a gweithgynhyrchu uwch. Trefnir rhagor o ymweliadau â'r holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i weld ym mha ffyrdd y gall y sector fanteisio ar gyfleoedd i sicrhau cyllid ymchwil y DU a meithrin gwell cysylltiadau â busnesau yng Nghymru.

## *Amcan 2: Goruchwylio a chynnal y setliad datganoli a hwyluso cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru*

Roedd Swyddfa Cymru wedi chwarae rhan allweddol drwy gydol y flwyddyn wrth gyflawni ymrwymiadau'r Llywodraeth ynghylch datganoli i Gymru yn enwedig drwy gynorthwyo Comisiwn Silk yn ei waith. Yn ogystal â hyn, rhoesom gyngor arbenigol i Adrannau Llywodraeth eraill ar y berthynas rhwng polisi a deddfwriaeth ddatganoledig a hynny sydd heb ei ddatganoli, a chymryd camau i hyrwyddo a hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth a sefydliadau datganoledig yng Nghymru.

### *Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ('Comisiwn Silk')*

Ar ôl ei sefydlu yn Hydref 2011 dechreuodd Comisiwn Silk ar ran gyntaf ei gylch gwaith, sef ystyried y ddadl o blaid datganoli pwerau cyllidol. Daeth y gwaith hwn i ben ym mis Tachwedd 2012 pan gyhoeddwyd *Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru*, adroddiad manwl a oedd yn cynnig 33 o argymhellion ynghylch atebolrwydd ariannol y Cynulliad a Llywodraeth Cymru.

Ers hynny, mae Swyddfa Cymru wedi cydweithio â'r Trysorlys ac Adrannau Llywodraeth eraill i ystyried yr argymhellion a'u goblygiadau i Gymru ac i weddill y DU. Bydd y Llywodreath yn cyflwyno ei ymateb cyntaf i argymhellion y Comisiwn pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

Mae Swyddfa Cymru wedi sicrhau bod newidiadau yn aelodaeth y Comisiwn wedi digwydd yn rhwydd. Roedd dau aelod o'r Comisiwn wedi ymddiswyddo ar ôl cwblhau'r rhan gyntaf o gylch gwaith y Comisiwn, a phenodwyd rhai yn eu lle i ddechrau ar yr ail ran o waith y Comisiwn. Penodwyd aelod annibynnol ychwanegol i'r Comisiwn ar gyfer yr ail ran i sicrhau bod buddiannau Gogledd Cymru wedi'u hadlewyrchu yn ei aelodaeth.

Ar ddiwedd Tachwedd 2012, cafwyd cais am dystiolaeth gan y Comisiwn ar gyfer ail ran ei gylch gwaith, sef edrych ar bwerau'r Cynulliad ac argymell newidiadau yn y trefniadau cyfansoddiadol presennol i beri i setliad datganoli Cymru weithio'n fwy effeithiol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth oedd 1 Mawrth 2013. Cydweithiodd Swyddfa Cymru yn agos â holl Adrannau Llywodraeth y DU i gynnig tystiolaeth gynhwysfawr a oedd yn bwrw golwg manwl ar y setliad datganoli yng Nghymru. Mae'r Comisiwn yn ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law ar hyn o bryd a bydd yn adrodd ar ail ran ei gylch gwaith erbyn gwanwyn 2014.

### *Cyhoeddiad Rhynglywodraethol ar Gyllid*

Roedd Swyddfa Cymru wedi chwarae rhan bwysig yn y trafodaethau rhynglywodraethol ar gyllid a arweiniodd at gyhoeddiad ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar 24 Hydref 2012. Roedd y cyhoeddiad yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r cydgyfeirio rhwng y lefelau gwariant y pen yng Nghymru a Lloegr cyn pob adolygiad o wariant ac yn nodi bod Llywodraeth y DU yn cytuno ar yr egwyddor y bydd pwerau benthyca ar gael i Lywodraeth Cymru i ariannu prosiectau seilwaith, ar yr amod bod ffrwd refeniw annibynnol i gwrdd â benthyca o'r fath. Mae hyn wedi cyfrannu yn ei dro at ein gwaith gyda'r Trysorlys ar ystyried argymhellion Comisiwn Silk.

### *Trefniadau Etholiadol y Cynulliad*

Cyhoeddwyd Papur Gwyrdd gan Swyddfa Cymru ym Mai 2012 i geisio barn am nifer o faterion sy'n ymwneud ag etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn benodol, o ganlyniad i Ddeddf Seneddau Tymor Penodol 2011, sy'n pennu dyddiadau Etholiadau Cyffredinol y DU yn y dyfodol, holwyd a ddylai'r Cynulliad fabwysiadu tymhorau penodol o bum mlynedd o 2016 ymlaen i sicrhau na fyddai dyddiadau'r etholiadau'n gwrthdaro. Gofynnwyd hefyd a ddylid diddymu'r gwaharddiad presennol ar ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad rhag sefyll am etholaeth a sefyll ar restr ranbarthol yr un pryd ac a ddylid gwahardd unigolion rhag eistedd yn Aelodau o'r Cynulliad ac yn Aelodau Seneddol yr un pryd. Yn olaf, ceisiwyd barn am newidiadau yn etholaethau'r Cynulliad i adfer y cysylltiad ag etholaethau Seneddol diwygiedig pe byddai'r Senedd yn eu cymeradwyo. Daeth yr ymgynghoriad i ben yn Awst 2012 a chyhoeddodd Swyddfa Cymru grynodeb o'r ymatebion a gafodd ym mis Tachwedd 2012.

Cafwyd nad oedd angen symud ymlaen â'r newidiadau arfaethedig yn etholaethau'r Cynulliad, ond cadarnhaodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym Mawrth 2013 fod y Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â'r tri chynnig arall sydd yn y Papur Gwyrdd. Bydd Swyddfa Cymru yn ceisio deddfu ar y materion hyn cyn gynted â phosibl.

***Cynghori ar y cysylltiad rhwng polisi a deddfwriaeth ddatganoledig a hynny sydd heb ei ddatganoli***

Mae'r Adran wedi parhau i hyrwyddo buddiannau Cymru wrth ddatblygu deddfwriaeth y Llywodraeth, gan gyd-drefnu a hwyluso cysylltiadau â thimau Mesurau a chynghori ar yr effaith bosibl ar Gymru o ddeddfwriaeth arfaethedig. Gan mai Swyddfa Cymru yw'r Adran sy'n gyfrifol am oruchwylio'r setliad datganoli, rhoddodd gyngor ynghylch sut y dylai setliad datganoli Cymru gael ei adlewyrchu mewn deddfwriaeth arfaethedig, a lle y dylid gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â darpariaethau mewn Mesurau seneddol. Cyflwynodd y Llywodraeth 24 o Fesurau yn y Senedd drwy ei hail raglen ddeddfwriaethol, ac roedd Cydsyniad Brenhinol wedi'i roi i 14 o'r rheini erbyn 31 Mawrth 2012.

Roeddem wedi cyfrannu'n neilltuol at ddatblygu'r Mesur Cyllid Llywodraeth Leol, sef y prif gyfrwng deddfwriaethol i gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i leoleiddio'r dreth gyngor. Cydweithiodd Swyddfa Cymru yn agos â'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol, Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod modd datblygu a chyflwyno system newydd yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys Gorchmynion a basiwyd yn y Senedd i roi pwerau perthnasol i Weinidogion Cymru. Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth pwysig eraill a oedd yn gofyn am gyfraniad sylweddol gan Swyddfa Cymru yr oedd y Mesur Trosedd a Llysoedd, y Mesur Cyfiawnder a Diogelwch, y Mesur Plant a Theuluoedd, y Mesur Ynni a'r Mesur Dŵr drafft.

Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i chwarae rhan bwysig drwy fonitro Biliau'r Cynulliad wrth iddynt fynd drwy'r Cynulliad a sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac Adrannau Llywodraeth y DU yn cydgysylltu'n effeithiol wrth symud ymlaen â'u rhaglenni deddfwriaethol. Cafwyd cydgysylltu manwl ar nifer o Filiau a chynigion cyn y broses ddeddfu, yn enwedig Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) sy'n ceisio newid y system bresennol ar gyfer rhoi organau a chyflwyno system optio allan yng Nghymru, Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru), ar Gorff Adnoddau Naturiol Cymru ac ar y cynigion ar gyfer rheoli cŵn peryglus. Rydym wedi hwyluso cyfarfodydd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Whitehall fel y ceir cydweithio effeithiol i gyflawni polisïau. Mae Swyddfa Cymru hefyd yn hysbysu Adrannau Llywodraeth y DU am ddeddfwriaeth sydd wedi'i gwneud yn y Cynulliad, fel y gallant ystyried a oes unrhyw ddadl o blaid arfer pwerau ymyrryd yr Ysgrifennydd Gwladol.

Roedd gan Swyddfa Cymru ran hefyd mewn cyfeirio Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) at y Goruchaf Lys gan y Twrnai Cyffredinol. Dyfarnodd y Llys fod adrannau 6 a 9 y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan roi eglurhad buddiol o'r ffin yn y setliad datganoli.

Mae'r Adran yn ymddiddori'n fawr ym mentrau polisi Llywodraeth Cymru ac yn y cynnydd ar ei rhaglen ddeddfwriaethol. Bydd Gweinidogion o'r ddwy Lywodraeth yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

### *Hybu a hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r sefydliadau datganoledig*

Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i gydweithio ag Adrannau ar draws Llywodraeth i hybu ymwybyddiaeth o setliad datganoli Cymru, gan egluro sut y mae'n gweithio a'r hyn y mae angen i Adrannau ei wneud i sicrhau bod materion datganoli'n cael eu hystyried yn llawn yn eu gwaith pob dydd.

Un agwedd ar hyn yw cydweithio'n agos â thimau Mesurau ar draws Whitehall ar y camau cyntaf wrth ystyried cynigion, a chynnig cyfarwyddyd ar y setliad datganoli i sicrhau bod buddiannau Cymru wedi'u hadlewyrchu wrth symud ymlaen â deddfwriaeth. Roedd swyddogion Swyddfa Cymru wedi cymryd rhan hefyd mewn sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth mwy ffurfiol, er enghraifft, sesiynau mewnol yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran Drafnidiaeth, a sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan Wasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth.

Mae Swyddfa Cymru yn cymryd rhan hefyd yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion a'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, lle y mae materion sydd o ddiddordeb i'r Llywodraeth ac i'r sefydliadau datganoledig yn cael eu trafod. Un agwedd ar hyn oedd cadeirio cyfarfod o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yng Nghaerdydd ar 26 Tachwedd 2012. Yn y cyfarfod trafodwyd blaenoriaethau'r gweinyddiaethau a oedd yn bresennol gan ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn seilwaith i ysgogi twf a phwysigrwydd addysg y blynyddoedd cynnar.

## *Amcan 3: Cynrychioli buddiannau Cymru o fewn Llywodraeth y DU a hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o bolisïau Llywodraeth y DU yng Nghymru*

Yn ystod 2012-13, mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi ymgymryd â chwe sesiwn o Gwestiynau Llafar ar Gymru ac wedi cynnal dwy sesiwn o'r Uwch-Bwyllgor Cymreig – y gyntaf ym Mehefin 2012 ar Araith y Frenhines a'r Gyllideb; a'r ail yn Ionawr 2013 ar y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. Roedd cyfle yn y ddau gyfarfod o'r Pwyllgor i graffu ar bolisi'r Llywodraeth o ran ei effaith ar Gymru.

### *Y Gyllideb a Datganiad yr Hydref*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi bod yn awyddus i sicrhau bod Datganiad yr Hydref a Datganiad y Gyllideb yn dod â budd i Gymru. Yn dilyn y cyhoeddiad yng nghyllideb 2012 am lwfansau cyfalaf uwch yn ardal fenter Glannau Dyfrdwy, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei gefnogaeth i gynigion gan Lywodraeth Cymru am gynnig lwfansau cyfalaf uwch hefyd ar safleoedd yn ardaloedd menter y Ddau Gleddau a Glyn Ebwy. Cyhoeddwyd hyn wedyn gan Ganghellor y Trysorlys yn Natganiad yr Hydref gyda'r posibilrwydd o greu 1,000 o swyddi newydd.

Rhoddwyd hwb gwirioneddol hefyd yn Natganiad yr Hydref 2012 i fusnesau ac unigolion yng Nghymru drwy fesurau fel diddymu'r cynnydd arfaethedig yn y

dreth danwydd yn Ionawr, cynnydd dros dro yn y Lwfans Buddsoddi Blynyddol, gostyngiad ychwanegol o un y cant ym mhrif gyfradd treth gorfforaeth i 21% o 2014 a chynnydd yn y Lwfans Personol i £9,440.

Oherwydd y camau gan y Llywodraeth yng Nghyllideb 2013 i ddiogelu cyllidebau iechyd ac addysg, nid oedd Llywodraeth Cymru yn wynebu'r gostyngiadau mawr yn eu cyllideb a welodd nifer o Adrannau Llywodraeth y DU. Yn ogystal â hyn, bydd cynnydd o £161 miliwn yng nghyllidebau cyfalaf Llywodraeth Cymru, fel y bydd ganddi gyllid ychwanegol i gyflawni prosiectau i ddatblygu seilwaith sydd mawr eu hangen. Bydd busnesau yng Nghymru'n elwa o lwfans o £2,000 i wrthbwyso cost eu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a bydd busnesau bach a chanolig eu maint yn cael budd hefyd o'r gallu i gael gafael ar fwy o gyllid. Drwy gyflwyno gostyngiad yn y dreth gwerth £750 miliwn y flwyddyn ar gyfer gofal plant, bydd teuluoedd yng Nghymru'n cael cymorth i dalu 20 y cant o'u costau gofal plant. Yn ogystal â hyn, bydd y cynnydd yn y lwfans personol ar gyfer treth incwm i £10,000 yn helpu 1.1 miliwn o drethdalwyr yng Nghymru.

Yn gyffredinol, o ganlyniad i'r mesurau sydd wedi'u cyhoeddi ers yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn mwy na £850 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer gwariant cyfalaf.

### *Diwygio Lles*

Mae Swyddfa Cymru wedi chwarae rhan wrth sicrhau bod cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer diwygio lles yn cael eu gweithredu'n effeithiol yng Nghymru. Mae'r Adran wedi tynnu sylw at faterion penodol sy'n ymwneud â Chymru wrth ddatblygu polisïau penodol i ddiwygio lles a fydd yn effeithio ar Gymru. Yn ogystal â hyn, mae wedi hwyluso ymgysylltu rhwng Adrannau Llywodraeth y DU, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, a Llywodraeth Cymru. Un agwedd ar hyn yw ystyried sut y bydd y budd-daliadau sydd wedi'u trosglwyddo a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu darparu yng Nghymru ar ôl cyflwyno'r Credyd Cynhwysol.

Mae Swyddfa Cymru wedi cadw golwg manwl ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi yng Nghymru i sicrhau bod y diwygiadau lles yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymru, Stephen Crabb AS wedi cwrdd â Chyfarwyddwr Canolfan Byd Gwaith Cymru i drafod y darparu ar wasanaethau. Mae cyfarfod wedi'i drefnu hefyd rhwng y Gweinidog a'r Arglwydd Freud i drafod y cyflawni ar ddiwygiadau lles yng Nghymru cyn toriad yr haf. Bydd swyddogion Swyddfa Cymru hefyd yn cwrdd yn rheolaidd ag uwch-swyddogion yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a Canolfan Byd Gwaith i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyflenwi gwasanaethau a datblygu polisi.

### *Y Lluoedd Arfog*

Mae gan Gymru gysylltiad arbennig â'r Lluoedd Arfog ac mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi cefnogi ein Lluoedd Arfog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn amryw o ddigwyddiadau ac achlysuron gwahanol.

Cyflwynwyd sylwadau gan Swyddfa Cymru i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar Adolygiad Basing. O ganlyniad i'r Adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, fe gadwyd ôl troed y Weinyddiaeth Amddiffyn i raddau helaeth a chafwyd buddsoddiad o £100 miliwn yng Nghymru hefyd.

Fis Mehefin diwethaf, nodwyd Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghaerdydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi bod yn bresennol mewn nifer o orymdeithiau croeso'n ôl i ddangos eu cefnogaeth. Ar ddiwrnod cyhoeddi adroddiad blynyddol cyntaf Cyfamod y Lluoedd Arfog, ymwelodd yr Is-ysgrifennydd Seneddol Stephen Crabb AS â'r ganolfan Holwch Un Fro yn y Barri i weld drosto'i hun y cymorth y mae aelodau a chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn ei gael ledled Cymru.

### *Plismona*

Y flwyddyn hon gwelsom y diwygio democrataidd pwysicaf ar blismona o fewn cof pan etholwyd comisiynwyr heddlu a throseddu gan y cyhoedd ym mis Tachwedd 2012. Mae comisiynwyr heddlu a throseddu yn rhan allweddol o gynllun cynhwysfawr i ymladd yn erbyn troseddu ac roedd eu cyflwyno'n rhan o raglen ehangach y Llywodraeth i ddatganoli pŵer a chyfrifoldeb. Cydweithiodd Swyddfa Cymru yn agos â'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod materion sy'n ymwneud yn benodol â Chymru'n cael eu hystyried yn llawn wrth weithredu'r polisïau newydd ar blismona.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi parhau â'i gyfarfodydd rheolaidd â'r pedwar prif gwnstabl yng Nghymru i drafod datblygiadau mewn polisi. Cyfarfu Gweinidogion Swyddfa Cymru hefyd â'r pedwar comisiynydd heddlu a throseddu ym mis Ionawr ac maent wedi ymrwymo i gwrdd bob chwarter blwyddyn â'r comisiynwyr heddlu a throseddu a'r prif gwnstabliaid.

### *Materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg*

Swyddfa Cymru yw'r Adran arweiniol yn Llywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cwrdd yn rheolaidd â Chomisiynydd y Gymraeg i drafod materion cyfredol sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth Gymraeg gan Adrannau Llywodraeth y DU. Mae Swyddfa Cymru yn parhau i helpu Adrannau eraill i ddelio â materion sy'n codi. Ym mis Rhagfyr, cafodd Guto Bebb AS ei wahodd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i fod yn gynghorydd ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg er mwyn helpu Swyddfa Cymru yn ei gwaith.

## *Amcan 4: Hyrwyddo buddiannau cymdeithasol a diwylliannol Cymru*

Roedd Swyddfa Cymru a'i thîm Gweinidogol wedi chwarae rhan bwysig wrth gynrychioli Cymru a hyrwyddo ei buddiannau cymdeithasol a diwylliannol.

### *Y Gymdeithas Fawr*

Yn dilyn llwyddiant y seminar y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd ail Seminar y Gymdeithas Fawr gan Weinidogion Swyddfa Cymru yng Nghaerdydd fis Tachwedd diwethaf i drafod sut i helpu a chefnogi cenhedlaeth newydd o entrepreneuriaid cymdeithasol. Mae syniadau a godwyd yn y seminar wedi'u cynnwys yn nhrafodaethau Fforwm Cynghori Swyddfa Cymru ar y Gymdeithas Fawr, sydd wedi cwrdd ddwywaith yn y flwyddyn ddiwethaf ac sy'n parhau i gynnig golwg newydd ar y ffordd orau y gall Cymru gyfrannu at agenda'r Gymdeithas Fawr.

Mae'r tîm Gweinidogol wedi cymryd camau hefyd i hybu ymwybyddiaeth o'r Gymdeithas Fawr yng Nghymru drwy ymweld â sefydliadau trydydd sector a mentrau cymdeithasol ledled Cymru, gan gynnwys Vi-Ability yng Nghonwy a 'Too Good to Waste' yn Rhondda Cynon Taf. Roedd llwyddiant mentrau cymdeithasol yng Nghymru wedi'i gydnabod hefyd drwy Wobrau Cymdeithas Fawr y Prif Weinidog y flwyddyn hon, ac roedd menter gymdeithasol sydd â'i chanolfan yng Nghyffordd Llandudno, Crest Co-operative wedi'i chanmol am ei gwaith ym maes ailgylchu cynaliadwy.

### *Materion Diwylliannol*

Mae Cymru'n falch o'i hanes diwylliannol cyfoethog ac mae Swyddfa Cymru yn parhau i hyrwyddo Cymru fel canolfan ragoriaeth ddiwylliannol ar bob cyfle.

Ym mis Gorffennaf 2012, ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol â Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt a bu'r Is-ysgrifennydd Seneddol ar y pryd yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen i dynnu sylw at yr hanes a'r traddodiad artistig cyfoethog sydd gan Gymru. A Is-ysgrifennydd Seneddol ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Morgannwg hefyd.

Yn gynharach y flwyddyn hon, aeth tîm Gweinidogol Swyddfa Cymru ar nifer o ymweliadau amrywiol ledled Cymru i hyrwyddo'r cyfoeth o atyniadau i ymwelwyr a safleoedd o ddiddordeb diwylliannol sydd yng Nghymru, fel rhan o Wythnos Twristiaeth Cymru. Gerddi Bodnant yn Nyffryn Conwy oedd un o'r mannau y bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymweld â nhw, tra oedd yr Is-ysgrifennydd Seneddol Stephen Crabb AS wedi ymweld â Thŷ Ddewi, y ddinas leiaf yn y DU, yn sir Benfro a'r Is-ysgrifennydd Seneddol y Farwnes Randerson wedi ymweld ag Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan ar gyrion Caerdydd.

## *Amcan 5: Cynnal ein busnes yn gwrtais, yn effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol*

### *Ariannu a Chyllid*

O'r setliad o £12,868 biliwn ar gyfer Cymru, y dyraniad i Swyddfa Cymru ar gyfer 2012-13 oedd tua £7 miliwn, a gwariwyd hyn yn bennaf ar staff a swyddfeydd Swyddfa Cymru, ac ar gyfrifoldebau eraill Swyddfa Cymru fel ad-daliadau i Arglwydd Raglawiaid Cymru. Gweddill y setliad (£12,867 biliwn) yw'r grant i Lywodraeth Cymru a Chronfa Gyfunol Cymru.

Mae Swyddfa Cymru yn trefnu i drosglwyddo taliadau grant i Lywodraeth Cymru ond mae'r union ffordd o wario'r arian hwnnw ac ar beth yn fater i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ei defnydd o adnoddau ac mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am yr archwiliad allanol o Lywodraeth Cymru.

### *Effeithlonrwydd*

Yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant presennol (hyd 2014–15) bydd cyllideb Swyddfa Cymru yn lleihau o un rhan o dair mewn termau real.

Er mwyn ei helpu i gwrdd â'r gostyngiad hwn, sefydlwyd Pwyllgor Newid ac Effeithlonrwydd gan Swyddfa Cymru yn 2012–13 i wneud argymhellion ynghylch yr arbedion effeithlonrwydd sydd i'w sicrhau ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol nesaf dan yr Adolygiad o Wariant. Rhan o'r gwaith hwn oedd adolygiad gan y Swyddfa o'i strwythur staffio i sicrhau bod y sgiliau priodol ar gael iddi yn y mannau priodol er mwyn cyflawni ei Chynllun Busnes â chyllideb sy'n lleihau.

Mae'r Swyddfa hefyd yn parhau i geisio rhannu gwasanaethau ac arbenigedd â'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill er mwyn gostwng costau a dod yn fwy cydnerth. Mae gweithgor o swyddogion y tair Swyddfa yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried, pennu ac asesu'r swyddogaethau y gellir eu rhannu, yn ogystal ag adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r gwasanaethau a rennir ar hyn o bryd, fel gwasanaethau Seneddol, er mwyn cynllunio'n well ar gyfer cydwasanaethau yn y dyfodol. Yn 2013–14 bydd y tair swyddfa'n treialu cynllun i rannu'r gwaith o drafod gohebiaeth weinidogol a cheisiadau rhyddid gwybodaeth.

Gan ein bod yn Adran fach, parhawyd â'n dull pragmataidd a chosteffeithiol o ddarparu gwasanaethau corfforaethol mewnol, gan gadw trefniadau a chontractau fframwaith presennol y Weinyddiaeth Cyfiawnder mewn meysydd fel diogelwch, glanhau, rheoli cyfleusterau, gwasanaethau ariannol a gwasanaethau TG i'r graddau mwyaf posibl. Mae trefniadau a chontractau o'r fath yn sicrhau manteision sylweddol o ran arbedion maint ac arbenigedd. Rydym wedi gwneud cytundebau lefel gwasanaeth â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer y gwasanaethau hyn.

### *Tryloywder*

Mae tryloywder, atebolrwydd a gweithredu agored yn agweddau canolog ar werthoedd craidd Swyddfa Cymru. Rydym wedi parhau i gyhoeddi swm sylweddol o wybodaeth ar ein gwefan, gan gynnwys:

- Gwariant o fwy na £500, gan gynnwys Cardiau Caffael Llywodraeth;
- Ffigurau misol am y gweithlu gan gynnwys costau cyflog;
- Strwythur a chyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil;
- Rhoddion sydd wedi'u rhoi a'u derbyn gan Weinidogion (a'r Cynghorydd Arbennig) sy'n werth mwy na £140;
- Teithiau tramor y Gweinidogion;
- Lletygarwch a dderbyniwyd gan Weinidogion, y Cynghorydd Arbennig a'r Cyfarwyddwr;
- Cyfarfodydd â chyrff allanol, gan gynnwys y cyfryngau.

Yn ystod 2012–13 roeddem wedi delio â mwy na 130 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd wedi'u nodi isod.

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd, a oedd yn cynnwys: | 134 |
| Ymatebion a roddwyd o fewn 20 o ddiwrnodau gwaith neu o fewn cyfnod estynedig a ganiatawyd | 108 (81%) |
| Ceisiadau am Adolygiad Mewnol o'n hymateb | 8 |
| Response referred by requestor to the Information Commissioner | 0 |

Mae crynodeb isod o'n perfformiad Seneddol yn ystod 2012–13:

| Targed | % |
|---|---|
| % y cwestiynau â dyddiad trafod a atebwyd mewn pryd | 93% |
| % y cwestiynau ysgrifenedig cyffredin a atebwyd mewn pryd | 98% |

Ein perfformiad wrth ddelio â gohebiaeth yn ystod 2012–13 oedd:

| Targed | % |
|---|---|
| Gohebiaeth wedi'i thrafod o fewn 15 diwrnod | 93% |

***Taliadau i Gyflenwyr***

Yn ystod blwyddyn ariannol 2012–13 polisi'r Adran oedd talu i gyflenwyr yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog ym Mai 2010 y bydd Adrannau Llywodraeth yn talu cyflenwyr o fewn 5 niwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys yn y cyfeiriad bilio cywir.

Ym mlwyddyn ariannol 2012–13, talwyd 94% o anfonebau yn unol â'r telerau hyn o'i gymharu â'r targed ar draws Llywodraeth o 80%. Yn 2011–12, talwyd 92% o anfonebau o fewn 5 niwrnod ar ôl eu derbyn.

***Swyddfeydd a Gwaith Cyfalaf***

Prif swyddfa'r Adran yw Tŷ Gwydyr, yn Whitehall, a oedd yn dŷ tref Sioraidd yn wreiddiol ac sy'n adeilad rhestredig Gradd II*. Rydym yn cael cyngor a chymorth proffesiynol gan dîm ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a chan ein hasiantau rheoli ein hunain, er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni'r rheoliadau adeiladu statudol ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar iechyd a diogelwch, treftadaeth a materion eraill. Rydym yn dilyn rhaglen dreigl o waith cynnal ar gyfer Tŷ Gwydyr sy'n darparu ar gyfer ei statws a'i ofynion arbennig, ac rydym yn ymdrechu'n barhaus i ddarparu amgylchedd gweithio diogel i'n staff, Gweinidogion ac ymwelwyr.

Yn ogystal â hyn, mae'r Adran yn rhentu swyddfa (ar gyfer tua chwarter o'i staff) yng Nghymru, mewn man ym Mae Caerdydd sy'n agos i Gynulliad Cenedlaethol


Cymru a rhanddeiliaid allweddol. Mae'r ddwy swyddfa'n bodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb.

Gwnaethom symud o'n swyddfa yng Nghaerdydd yn haf 2012 i wneud lle i gwmni canolfannau galwadau, First Source Solutions, ddod yn unig ddeiliad Discovery House. Yn unol â rhaglen y Llywodraeth ar gyfer gostwng costau, bydd y rhent ar ein swyddfa newydd yn 11% yn llai y flwyddyn.

### *Materion Staffio*

Rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn defnyddio ein nifer bach o staff, sy'n meddu ar sgiliau priodol, yn y ffordd fwyaf effeithiol i gyflawni ein hamcanion busnes. Nid ydym yn gyflogwr drwy ein hawl ein hunain ac felly rydym yn parhau i gael gwasanaethau cyflogaeth gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder sydd hefyd yn recriwtio ar ein rhan. Mae ein polisi staffio mewnol yn canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol: cynnwys staff; rheoli perfformiad yn well; dysgu a datblygu parhaus gyda chymorth Civil Service Learning; sgiliau a galluedd; a newid trefniadol ac effeithlonrwydd.

Roedd 64 o aelodau staff gan Swyddfa Cymru ar ddechrau 2012-13 (a oedd yn cynnwys 3 aelod staff a oedd wedi'u rhoi ar fenthyg i Gomisiwn annibynnol am swm penodol). Roedd y nifer hwn wedi gostwng i 56 erbyn 31 Ionawr 2013 yn unol â thargedau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Mae'r siart isod yn dangos patrwm y lefelau staffio yn ystod y flwyddyn.





Cyfanswm y staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2013 oedd 52 (51.4 cyfwerth ag amser llawn), a oedd yn cynnwys tri gweithiwr asiantaeth (dros dro), dau brentis ar gontract tymor penodol, 10 aelod staff ar fenthyg o Lywodraeth

Cymru a thri ar fenthyg o Adrannau Llywodraeth eraill. Roedd 28% o'r staff yn ein swyddfa yng Nghaerdydd a 72% yn Nhŷ Gwydyr, Llundain. Mae pedwar aelod o staff Swyddfa Cymru wedi'u secondio i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ac mae un aelod o'r staff wedi'i secondio i Adolygiad Macur.

Mae dadansoddiad o'r staff ar sail graddfeydd y gwasanaeth sifil ar 31 Mawrth 2013 yn y siart isod:

**Dadansoddiad o'r staff ar sail graddfeydd ar 31 Mawrth 2013**




### *Recriwtio*

Cafwyd 15 o ymarferion recriwtio mewnol (hynny yw, o fewn y Gwasanaeth Sifil) gan Swyddfa Cymru yn ystod 2012-13. Ni chynhaliwyd unrhyw ymarferion recriwtio allanol.

### *Ymddiswyddo ac Ymddeol*

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, y prif resymau dros ymadawiad staff o Swyddfa Cymru oedd: trosglwyddo ochrol neu ddyrchafu neu roi ar fenthyg fel cyfle i ddatblygu i Adran Lywodraeth arall; dau aelod staff a ymadawodd ar delerau ymadael cynnar gwirfoddol; ac un ar ddiwedd penodiad am dymor penodol. Roedd 11 o unigolion eraill a oedd ar fenthyg i Swyddfa Cymru wedi dychwelyd i'w rhiant-adran.

### *Yr Uwch Wasanaeth Sifil*

Ar 31 Mawrth 2013 roedd pedwar aelod staff wedi'u penodi i swyddi yn yr Uwch Wasanaeth Sifil yn Swyddfa Cymru.

### *Cyfle Cyfartal*

| Staff yn swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2013 | Mawrth 2012 |
|---|---|---|
| Y gyfran sy'n fenywod | 25% | 25% |
| Y gyfran o fenywod sydd ym mand cyflog 2 neu'n uwch | 100% | 100% |
| Y gyfran sy'n bobl dduon neu o leiafrifoedd ethnig | 0% | 0% |
| Y gyfran sy'n bobl anabl | 0% | 0% |

| Staff o dan lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2013 | Mawrth 2012 |
|---|---|---|
| Menywod | 56% | 56% |
| Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 8% | 7% |
| Pobl anabl | 2% | 3% |

### *Rheoli Perfformiad*

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i reoli perfformiad yn ffurfiol. Er bod amserlen i sicrhau bod 100% o arfarniadau'n cael eu cyflawni cyn y terfyn amser a'u meincnodi, a bod o leiaf ddau adolygiad o staff bob blwyddyn, sefydlwyd Tîm Adolygu y flwyddyn hon i nodi sut i wella'r broses. Bydd argymhellion y tîm yn cael eu rhoi ar waith yng nghyfnod adrodd 2013-14.

### *Arolwg Ymgysylltu â Staff*

Mae Swyddfa Cymru yn cymryd rhan yn yr arolwg blynyddol o'r Gwasanaeth Sifil cyfan. Yn 2012, ein mynegrif cyffredinol ar gyfer ymgysylltu â staff oedd 50%.

Roedd y sgorau cadarnhaol uchaf a gawsom yn ymwneud â staff:

- sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol i wneud eu gwaith yn effeithiol;
- sydd â dealltwriaeth glir o bwrpas y Swyddfa, ei hamcanion a sut y mae eu gwaith yn cyfrannu atynt;
- sy'n gwybod y gellir dibynnu ar y bobl yn eu timau pan fydd pethau'n mynd yn anodd wrth wneud eu gwaith.

Roedd y meysydd lle y cawsom sgorau uwch na'r Unedau Gorau eu Perfformiad neu'r chwartel uchaf yng Ngwasanaeth Sifil y DU (rhwng 10% a 15%) yn ymwneud yn gyffredinol â'r rhannau o'r holiadur sy'n cynnwys Arweinyddiaeth a Rheoli Newid lle'r oedd staff yn cytuno:

- bod uwch-swyddogion y Swyddfa yn ddigon gweladwy;
- pan fydd newidiadau yn y swyddfa, eu bod er gwell fel arfer;
- eu bod yn cael cyfle i fynegi barn cyn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n effeithio arnynt.

Mae'r tri maes allweddol lle y byddwn yn cymryd camau yn 2013 yn ymwneud â themâu Rheoli Llinell, Cynhwysiant a Thriniaeth Deg ac Ymgysylltu ei hun. Mae'r sgorau cadarnhaol isaf a gawsom a'r meysydd lle y mae sgorau wedi gostwng er 2011 yn adlewyrchu'r themâu hyn fel a ganlyn:

- Roedd tua hanner y staff yn cytuno eu bod yn cael adborth rheolaidd am berfformiad; bod eu perfformiad yn cael ei werthuso'n deg a bod yr adborth yn arwain at welliant yn eu perfformiad;
- Teimlai mwy na hanner staff y Swyddfa fod parch at wahaniaethau unigolion;
- Roedd tua un rhan o dair o'r staff yn teimlo ymlyniad personol cryf wrth y Swyddfa a bod y Swyddfa'n lle rhagorol i weithio.

### *Dysgu a Datblygu*

Mae strategaeth Dysgu a Datblygu dair blynedd Swyddfa Cymru, a'r cynllun gweithredu sy'n deillio ohoni, wedi cael eu hadolygu bob blwyddyn ac mae pwyslais pendant ynddynt o hyd ar y berthynas rhyngddynt a'r Cynllun Busnes Adrannol a'r sgiliau sydd eu hangen i'w gyflawni'n llwyddiannus. Ar ôl lansio Civil Service Learning yn 2012, crëwyd cysylltiadau effeithiol â'r sefydliad a chofrestrodd 100% o'r staff gyda'r hyn sy'n cael ei ystyried bellach yn siop un stop ar gyfer dysgu. Mae gweithdai lleol wedi'u hwyluso ac mae gwaith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i bennu'r setiau sgiliau penodol y mae ar staff Swyddfa Cymru eu hangen ochr yn ochr ag asesu ar sail Fframwaith Cymhwysedd newydd y Gwasanaeth Sifil.

### *Gwirfoddoli*

Roedd mwy na 20 o aelodau staff, ar bob lefel yn y sefydliad, wedi gwirfoddoli i weithio am ddiwrnod i Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Nghymru yn ystod haf 2012. Hefyd cafodd tri aelod staff eu derbyn yn *Gamesmakers* yn y Gemau Olympaidd yn Llundain.

### *Cyflogi pobl anabl*

Mae Swyddfa Cymru yn dilyn Polisi Anabledd y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac mae wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i'r holl staff anabl. Rydym yn hyrwyddo diwylliant sy'n galluogi pobl anabl i gymryd rhan yn llawn ym mywyd gwaith, ac mae canllawiau ar gael ar gefnogi staff anabl yn y Llawlyfr Gallu Adrannol. Mae Swyddfa Cymru yn cymryd rhan yn y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig (GIS) ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anabledd. Mae cymorth a chyngor penodol ar gael ar ddatblygu gyrfa ar gyfer staff anabl. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cynnal ymgyrch dreigl ar "ddelweddau cadarnhaol o anabledd" i ddangos rolau a chyfrifoldebau sydd gan staff anabl ac i hybu dealltwriaeth o anabledd.

### *Data absenoldeb oherwydd salwch*

Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd yn y flwyddyn galendr oherwydd salwch ymysg staff ym mhob rhan o Swyddfa Cymru yn 2012–13 oedd 6.1 diwrnod (2011–12 7.1 diwrnod).

Mae lleihau absenoldeb oherwydd salwch yn cyd-fynd â'n hymrwymiadau yng nghyswllt y rhaglen Smarter Government ac yn parhau'n flaenoriaeth yn y strategaeth gweithlu ar gyfer yr Adran. Mae cydymffurfiaeth â'r Polisi Rheoli Presenoldeb wedi bod yn allweddol wrth leihau nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd yn y flwyddyn hon.

### *Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Nid yw Swyddfa Cymru yn trafod nifer mawr o ddata sensitif neu bersonol. Er hynny, mae wedi ymrwymo i sicrhau bod y wybodaeth y mae'n ei dal yn cael ei thrafod a'i diogelu'n briodol a'n bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol.

Nodir asedau a risgiau gwybodaeth ac mae rheolaethau ar waith i reoli'r defnydd ohonynt, a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym yn defnyddio pecyn hyfforddi sydd ar gael drwy Civil Service Learning i ddarparu hyfforddiant blynyddol i'r holl staff ar faterion sy'n ymwneud â sicrhau gwybodaeth a thrafod data.

### *Yr Iaith Gymraeg*

Mae gan Swyddfa Cymru ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun. Roeddem hefyd yn parhau i annog ein staff i ddysgu Cymraeg ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant iaith o ran galluogi staff i weithio'n hyderus yn Gymraeg. Roeddem yn parhau i dalu costau hyfforddiant yn ogystal â chynnig amser hwyluso â thâl a seibiant astudio i aelodau staff sy'n dilyn hyfforddiant o'r fath. Mae hyfforddiant lefel ganolradd wedi'i ddarparu yng Nghaerdydd a hyfforddiant lefel sylfaen yn Llundain. Mae tua 16 o'r staff presennol wedi cymryd rhan ers ei gyflwyno yn 2010.

Cynhelir archwiliad sgiliau o staff Swyddfa Cymru bob blwyddyn ac rydym yn defnyddio'r canlyniadau ohono i bennu ein rhaglen ar gyfer cynllunio a hyfforddi'r gweithlu. Ar hyn o bryd mae 10% o staff yn eu cyfrif eu hunain yn gwbl ddwyieithog.

### *Datblygu Cynaliadwy*

Dyma'r adroddiad annibynnol cyntaf ar gynaliadwyedd sydd wedi'i baratoi gan Swyddfa Cymru. Cyn hyn roedd Swyddfa Cymru wedi'i chynnwys yn adroddiad blynyddol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r data sydd yn yr adroddiad hwn yn unol â'r canllawiau a bennwyd yn 2012-13 gan Drysorlys EM yn 'Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting' sydd wedi'i gyhoeddi yn: www.hm-treasury.gov.uk/frem_sustainability.htm.

Yng nghyd-destun cynaliadwyedd, rydym yn canolbwyntio ar gyrraedd targedau llywodraeth, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a lleihau costau. Ymhlith y blaenoriaethau y mae lleihau allyriannau carbon, y defnydd o ddŵr a maint y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.

Mae Swyddfa Cymru yn unig ddeiliad mewn un adeilad yn Llundain, Tŷ Gwydyr. Nid ydym yn cynnwys meddiant ar y cyd oherwydd y cyfyngiadau wrth geisio allosod data dibynadwy ar gynaliadwyedd ar sail taliadau gwasanaeth sydd wedi'u darparu gan landlordiaid.

***Llywodraethu, cyfrifoldebau a sicrwydd mewnol***

Roedd Pwyllgor Rheoli Swyddfa Cymru wedi monitro perfformiad amgylcheddol ym mhob un o'i gyfarfodydd yn 2012-13.

***Ymrwymiadau i wneud Llywodraeth yn fwy Gwyrdd***

Mae'r Ymrwymiadau i wneud Llywodraeth yn fwy Gwyrdd, a lansiwyd ar 1 Ebrill 2011, yn ei gwneud yn ofynnol bod Adrannau'n cymryd camau i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd yn sylweddol erbyn 2014-15 (o'i gymharu â llinell sylfaen 2009-10). Gellir gweld yr ymrwymiadau hyn yn: http://sd.defra.gov.uk/gov/green-government/commitments/.

***Addasu a Lliniaru Effaith y Newid yn yr Hinsawdd***

Mae Swyddfa Cymru yn cael ei chynghori gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ynghylch y camau sy'n angenrheidiol i addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

***Ymrwymiad Lleihau Carbon***

Mae'r Ymrwymiad Lleihau Carbon yn cael ei reoli gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd drwy:

a Hybu'r defnydd o gynadledda fideo yn hytrach na theithio i gyfarfodydd;

b Defnyddio papur eildro;

c Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na cheir i deithio i gyfarfodydd.

| Tunelli o Allyriannau CO2 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
| Teithio mewn awyrennau | 1.7 | 5.36 | 3.03 | 0.37 | 2.49 | 21.46 |
| Teithio mewn trenau | 22.4 | 17.2 | 19.3 | 15.9 | 15 | 13.73 |
| Milltiredd mewn ceir | 6.82 | 7.83 | 6.3 | 1.78 | 2.05 | 2.08 |
| Gwresogi â nwy | 10.92 | 13.72 | 19.65 | 14.64 | 13.86 | 17.59 |
| Trydan | 39.37 | 35.68 | 33.81 | 33.19 | 35.04 | 33.90 |
| Gwastraff | 1.81 | 1.29 | 1.23 | 1.27 | 0.86 | 0.85 |
| Cyfanswm CO2 (tunelli) | 83.02 | 81.08 | 83.32 | 67.15 | 69.30 | 89.61 |
| Defnydd o ddŵr metr ciwbig | 367 | 346 | 370 | 320 | 474 | 361 |

* Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu'n fawr yn yr Ysgrifenyddion Gwladol wedi cynnal ymweliadau i'r Dwyrain Pell ar fusnes y Llywodraeth y DU

Lle y mae Swyddfa Cymru yn defnyddio gwasanaethau sydd wedi'u cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu dan gontract â hi, mae ein cyfraniad at gyflawni ymrwymiadau'r Llywodraeth ynghylch effeithiau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn cael ei wireddu drwy'r fframweithiau ehangach hynny. Mae gan Swyddfa Cymru raglen waith barhaus i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd sy'n cynnwys:

- Darparu ar gyfer casglu mwy o fathau o eitemau i'w hailgylchu yn ein dau adeilad;
- Hybu'r defnydd o gynadledda fideo yn hytrach na theithio i gyfarfodydd;
- Cael argraffyddion sy'n argraffu ar ddwy ochr y ddalen yn lle argraffyddion sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes.

Roedd y Pwyllgor Rheoli wedi monitro perfformiad amgylcheddol ym mhob un o'i gyfarfodydd yn 2012–13.

### *Archwilio*

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a gaiff ei benodi dan statud ac sy'n adrodd ar yr archwiliad i'r Senedd. Mae'r tâl i archwilwyr wedi'i ddatgelu yn Nodyn 7 i'r cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn adrodd ni wnaed unrhyw dâl i'r archwilwyr am waith heblaw gwaith archwilio (2012–13: £dim).

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro a Swyddfa Cymru, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Cymru yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro wedi cymryd pob cam dyladwy i ddod i wybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Swyddfa Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

# 4 Edrych ymlaen at 2013–14

Sbarduno twf economaidd yng Nghymru fydd y prif ffocws o hyd yng ngwaith yr Adran yn y flwyddyn sydd i ddod wrth i Gymru gamu ymlaen at ddyfodol mwy cynaliadwy. Gwella seilwaith Cymru, helpu mwy o bobl i ddychwelyd i'r gwaith a denu mwy o fewnfuddsoddi i Gymru fydd ein prif flaenoriaethau.

Bydd gwaith y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ('Comisiwn Silk') yn parhau'n ffocws i Swyddfa Cymru yn ystod 2013–14, o ran cynorthwyo'r Comisiwn, ymateb i'r argymhellion yn ei adroddiad cyntaf ac ystyried unrhyw argymhellion a fydd yn codi o ail ran ei waith. Byddwn yn ymwneud yn fanwl hefyd ag amryw o faterion cyfansoddiadol eraill, fel y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i weithredu newidiadau yn nhrefniadau etholiadol y Cynulliad.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n galed i ledaenu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o setliad datganoli Cymru o fewn Whitehall a thu hwnt. Mae Swyddfa Cymru yn credu ei bod yn hanfodol bod y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru yn cydweithio er budd i Gymru, a byddwn yn canolbwyntio ar hwyluso'r bartneriaeth honno er gwaethaf y gwahaniaethau gwleidyddol rhwng y gweinyddiaethau. Parhawn i gynnig cyngor a chyfarwyddyd arbenigol i Adrannau eraill wrth lunio polisïau a pharatoi deddfwriaeth. Yn yr un modd, byddwn yn trafod â Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen i sicrhau bod y ddeddfwriaeth y mae'n ei chyflwyno'n gyson â'r setliad datganoli a'i bod o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.

Wrth gwrs, bydd angen i Swyddfa Cymru barhau i chwarae ei rhan drwy sicrhau ei bod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl er mwyn cyfrannu at agenda'r Llywodraeth ar ddiwygio economaidd. Bydd y flwyddyn ariannol nesaf, 2013–14, yn fwy ymestynnol byth o ran cyflawni ein gwaith â chyllideb lai ond rydym wedi gosod rhai sylfeini cadarn yn y flwyddyn hon.

# 5 Sylwebaeth Rheoli

Yn 2012–13 gwariodd Swyddfa Cymru £12.792 biliwn o fewn yr Amcangyfrifon Cyflenwad Seneddol (Amcangyfrif Atodol y Gwanwyn), ar ffurf grant i Gronfa Gyfunol Cymru yn bennaf.

## Perfformiad Ariannol

Bydd y Senedd yn pleidleisio ar gyllid i'r Adrannau ddwywaith yn ystod y flwyddyn drwy *Brif Amcangyfrif* ar ddechrau'r flwyddyn ac *Amcangyfrif Atodol Sengl* yn Chwefror.

## Symudiadau yn narpariaeth yr Amcangyfrifon yn ystod 2012–13:

Ar ddechrau'r flwyddyn, dyfarnwyd £12.851 biliwn i Swyddfa Cymru yn ei Phrif Amcangyfrif. Erbyn gwneud yr Amcangyfrif Atodol Sengl terfynol, roedd hyn wedi codi i £12.867 biliwn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd o £16,338,000 yn y cyllid i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Eglurhad o'r amrywiannau rhwng yr Amcangyfrif a'r Alldro Adnoddau Net

Yn gyffredinol, cafwyd tanwariant o 0.58% / £75.019 miliwn ar y ddarpariaeth o £12.867 biliwn yn yr Amcangyfrif. Mae Nodyn 2 i'r Cyfrifon yn dadansoddi'r sefyllfa hon ar gyfer pob is-bennawd yn yr Amcangyfrif. Eglurir y rhesymau dros amrywiannau mawr o fwy na £60,000 a 5%.

***Swyddfa Cymru***

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 4,861 | 5,480 | 619 | 11% |

Gellir priodoli'r tanwariant gan Swyddfa Cymru yn bennaf i'r ffaith bod cyllid a neilltuwyd heb gael ei ddefnyddio; dyrannwyd £140,000 at adolygiad o ffiniau etholaethau yng Nghymru na chafodd ei gynnal, ac roedd swm a neilltuwyd ar gyfer dibrisiant a chyllideb arall nad oedd yn arian parod o £112,000 heb gael eu defnyddio.

### *Y Comisiwn ar Ddatganoli*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol | | Alldrao £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| | Commission on Devolution | 562 | 686 | 124 | 18 |

Gellir priodoli'r tanwariant gan y Comisiwn ar Ddatganoli yn bennaf i arian wrth gefn sydd heb ei ddefnyddio ac arbedion effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

### *Grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cronfa Gyfunol Cymru | 12,786,547 | 12,860,823 | 74,276 | 0.6 |

### *Cysoni gwariant ar adnoddau rhwng yr Amcangyfrif, Cyfrifon a Chyllidebau*

| | Amcangyfrif £000 | Cyfanswm 2012-13 £000 |
|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net (Amcangyfrifon)** | 12,866,969 | 12,791,950 |
| | | |
| Llai Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | |
| | | |
| Cost gweithredu Net (Cyfrifon) | 12,866,969 | 12,791,950 |
| | | |
| Gwariant a ddyfarnwyd y tu allan i'r gyllideb | (12,860,823) | (12,786,547) |
| | | |
| **Alldro'r Gyllideb Adnoddau (Cyllideb)** | | |
| sy'n cynnwys | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol | 6,166 | 5,423 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol* | -20 | -20 |

* Mae'n gyson â nodyn 2.

# 6 Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus

## TABL 1

### Bloc Cymru 2008-09 i 2014-15

| | 2008–09 alldro £'000 | 2009–10 alldro £'000 | 2010–11 alldro £'000 | 2011–12 alldro £'000 | 2012–13 alldro £'000 | 2013–14 cynlluniau £'000 | 2014–15 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Cymru** (1) (2) | | | | | | | |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru**(3) | | | | | | | |
| Costau Gweinyddu Swyddfa Cymru | 4,983 | 5,567 | 5,026 | 5,145 | 5,346 | 5,921 | 4,799 |
| Swyddfa Cymru – costau eraill(3) | 23 | 42 | 43 | 33 | 57 | 60 | 60 |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru**(3) | 5,006 | 5,609 | 5,069 | 5,178 | 5,403 | 5,981 | 4,859 |
| Cyfalaf Swyddfa Cymru | 96 | 0 | 130 | 185 | 316 | 724 | 25 |
| **TGA Adnoddau + Cyfalaf Swyddfa Cymru**(3) | **5,102** | **5,609** | **5,199** | **5,363** | **5,719** | **6,705** | **4,884** |
| *llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth* | *-236* | *-61* | *-227* | *-70* | *-82* | *-70* | *-70* |
| **TGA Swyddfa Cymru**(4)(5) | **4,866** | **5,548** | **4,972** | **5,293** | **5,637** | **6,635** | **4,814** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Mae'n cynnwys Newidiadau Cyllidebol o ganlyniad i Clear Line of Sight.
(3) Yn cynnwys dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(4) Adnoddau + cyfalaf – dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(5) Yn ôl confensiwn mae cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) wedi'u mynegi ar ffurf adnoddau a chyfalaf llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth. Felly ni fydd swm y rhifau am adnoddau a chyfalaf yn y tabl hwn yn cyfateb i'r Terfyn Gwariant Adrannol: y gwahaniaeth yw dibrisiant a lleihad mewn gwerth.

## TABL 1B

### TGA Llywodraeth Cymru a Chyfanswm Bloc Cymru

| | 2008–09 alldro £'000 | 2009–10 alldro £'000 | 2010–11 alldro £'000 | 2011–12 alldro £'000 | 2012–13 amcangyfrif o'r alldro £'000 | 2013–14 cynlluniau £'000 | 2014–15 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** (1) (2) (7) (8) | | | | | | | |
| Adnoddau Llywodraeth Cymru (3) | 13,011,110 | 13,752,801 | 14,021,910 | 13,902,986 | 13,932,116 | 14,187,694 | 14,196,311 |
| TGA Llywodraeth Cymru | 1,626,521 | 1,931,711 | 1,751,150 | 1,385,694 | 1,362,776 | 1,304,104 | 1,431,397 |
| **TGA Llywodraeth Cymru** (3) (7) | **14,637,631** | **15,684,512** | **15,773,060** | **15,288,680** | **15,294,892** | **15,491,798** | **15,627,708** |
| *llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth* | *–400,995* | *–464,079* | *–407,253* | *–427,664* | *–427,773* | *–482,341* | *–506,394* |
| **TGA Llywodraeth Cymru** (4) (7) | **14,236,636** | **15,220,433** | **15,365,807** | **14,861,016** | **14,867,119** | **15,009,457** | **15,121,314** |
| **TGA Llywodraeth Cymru** (4) | **4,866** | **5,548** | **4,972** | **5,293** | **5,657** | **6,635** | **4,814** |
| **Cyfanswm Bloc Cymru** (4) (5) (6) | **14,241,502** | **15,225,981** | **15,370,779** | **14,866,309** | **14,872,776** | **15,016,092** | **15,126,128** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Mae'n cynnwys Newidiadau Cyllidebol o ganlyniad i Clear Line of Sight.
(3) Yn cynnwys dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(4) Adnoddau + cyfalaf – dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(5) Yn ôl confensiwn mae cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) wedi'u mynegi ar ffurf adnoddau a chyfalaf llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth. Felly ni fydd swm y rhifau am adnoddau a chyfalaf yn y tabl hwn yn cyfateb i'r Terfyn Gwariant Adrannol: y gwahaniaeth yw dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(6) TGA Swyddfa Cymru + TGA Llywodraeth Cymru ar ôl didynnu dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(7) Mae ffigurau TGA am flynyddoedd alldro wedi'u haddasu i adlewyrchu newidiadau mewn cyllidebu a gafwyd wedyn.
(8) Mae alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012–13 yn ffigur dros dro wrth ddisgwyl cwblhau'r archwiliad o'i chyfrifon.

## TABLE 2

## Newidiadau yn Nherfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru rhwng 2011-12 a 2014-15 ers cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon 2011-12

| | 2011-12 £m Alldro | 2012-13 £m Alldro Dros Dro | 2013-14 £m Cynlluniau | 2014-15 £m Cynlluniau |
|---|---|---|---|---|
| **TGA Cyfalaf a TGA Adnoddau: Mehefin 2012** | **15,045.4** | **15,076.8** | **15,135.0** | **15,245.0** |
| Trosglwyddo rhwng Adrannau | | | | |
| o DWP: Budd-dal y Dreth Gyngor | 243.0 | 239.1 | 222.0 | 222.0 |
| o DWP: Y Gronfa Gymdeithasol | 0.0 | 0.0 | 12.4 | 12.2 |
| i'r Adran Iechyd: Sefydliad Cenedlaethol Gwyddoniaeth a Rheolaeth Fiolegol | 0.0 | 0.0 | -0.6 | -0.6 |
| o DCMS: Broadband UK | 0.0 | 3.7 | 0.0 | 0.0 |
| i DECC: Asiantaeth yr Amgylchedd | 0.0 | -1.7 | 0.0 | 0.0 |
| o DECC: Cyfoeth Naturiol Cymru | 1.6 | 1.7 | | |
| Polisi Gwariant | | | | |
| Cyfnewid Cyllidebau | 0.0 | 93.1 | 0.0 | 0.0 |
| Cronfa Cymunedau'r Arfordir | 0.0 | 1.2 | 0.0 | 0.0 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: TAW | 0.0 | 0.0 | -1.2 | -1.2 |
| Lleihad yng ngwerth Benthyciadau Myfyrwyr | 0.0 | 25.0 | 0.0 | 0.0 |
| Symiau Canlyniadol Barnett | | | | |
| Datganiad yr Hydref 2012 | 0.0 | 2.7 | 85.9 | 82.1 |
| Cyllideb 2013 | 0.0 | 0.0 | 38.4 | 68.2 |
| Alldro Adrannol (tanwariant o'i gymharu â'r cynlluniau terfynol) | | | | |
| Alldro Terfynol 2011-12 | -1.4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Alldro Dros Dro 2012-13 | 0.0 | -146.6 | 0.0 | 0.0 |
| ***Is-gyfanswm*** | ***243.2*** | ***218.1*** | ***356.8*** | ***382.7*** |
| **TGA Cyfalaf a TGA Adnoddau: Mehefin 2013** | **15,288.680** | **15,294.9** | **15,491.8** | **15,627.7** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.

## TABLE 3

## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2011-12: Darpariaeth ac Alldro Terfynol

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Alldro Terfynol £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA [(1)(2)] | 15,066,870 | 15,150,753 | 15,043,987 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 318,789 | 430,228 | 314,798 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **15,385,659** | **15,580,981** | **15,358,785** |
| *Llai:* | | | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 120,211 | 120,211 | 120,208 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnoddau a Neilltuwyd nad ydynt yn arian | 431,149 | 455,099 | 426,014 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 164,726 | 286,803 | 146,807 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **722,164** | **868,191** | **699,107** |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **14,663,495** | **14,712,790** | **14,659,678** |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | –886,953 | –878,324 | –878,323 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | –867,000 | –970,000 | –970,000 |
| **Cyfanswm** | **-1,753,953** | **-1,848,324** | **-1,848,323** |
| **Newid ym malans Cronfa Gyfunol Cymru a symudiadau mewn cyfalaf gweithio** | 1,325 | 1,325 | –19,572 |
| **Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru** | **12,910,867** | **12,865,791** | **12,791,783** |

Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.

(1) TGA adnoddau a chyfalaf gan gynnwys dibrisiant.
(2) Nid yw'r ffigurau wedi'u haddasu ar gyfer newidiadau mewn cyllidebu a gafwyd wedyn.

## TABL 4

## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2012-13: Darpariaeth ac Amcangyfrif o'r Alldro

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Amcangyfrif o'r Alldro £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA [(1)] | 15,076,759 | 15,200,719 | 15,054,133 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 405,773 | 497,722 | 430,166 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **15,482,532** | **15,698,441** | **15,484,299** |
| Llai: | | | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 107,299 | 107,299 | 107,299 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnoddau a Neilltuwyd nad ydynt yn arian | 472,999 | 496,349 | 426,123 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 221,714 | 327,520 | 231,263 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **808,090** | **937,246** | **770,763** |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **14,674,442** | **14,761,195** | **14,713,536** |
| **Derbyniadau a ddyfarnwyd** | | | |
| | -886,492 | -941,907 | -941,907 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -944,000 | -1,003,000 | -1,003,000 |
| **Cyfanswm** | **-1,830,492** | **-1,944,907** | **-1,944,907** |
| **Newid ym malans Cronfa Gyfunol Cymru a symudiadau mewn cyfalaf gweithio** | 535 | 44,535 | 17,918 |
| **Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru** | **12,844,485** | **12,860,823** | **12,786,547** |

Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(1) TGA adnoddau a chyfalaf gan gynnwys dibrisiant.

## TABL 5

## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2013-14

| | |
|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA | 15,491,805 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 317,132 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **15,808,937** |
| **Llai:** | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 88,800 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 |
| Adnoddau a Neilltuwyd nad ydynt yn arian | 482,341 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 102,146 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **679,365** |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **15,129,572** |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | –996,549 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | –944,000 |
| **Cyfanswm** | **-1,940,549** |
| Addasiadau Amseru | 325 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 100 |
| **CYFANSWM Y GRANT I GRONFA GYFUNOL CYMRU** | **13,189,448** |

# 7 Adroddiad Tâl

## Adrannau Archwiliadwy

Yn unol ag Atodlen 7A i Ddeddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd) dim ond adrannau penodol o'r Adroddiad Tâl sydd wedi'u cynnwys yn yr archwiliad allanol llawn, sef yr adrannau ar gyflogau a hawliau pensiwn.

## Polisi Tâl

Pennir tâl uwch weision sifil gan y Prif Weinidog ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion.

Mae'r Corff Adolygu hefyd yn cynghori'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd ar dâl a phensiynau Aelodau Seneddol (ASau) a'u lwfansau; ar lwfansau Arglwyddi; ac ar dâl, pensiynau a lwfansau Gweinidogion ac eraill y pennir eu tâl gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion ac Eraill 1975.

Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- Yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sydd â'r gallu a'r cymwysterau priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau amrywiol;
- Amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar y gallu i recriwtio a chadw staff;
- Polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad bod Adrannau'n cyrraedd y targedau allbwn ar gyfer cyflenwi gwasanaethau Adrannol;
- Y cyllid sydd ar gael i Adrannau sydd wedi'i nodi yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth;
- Targed y Llywodraeth ar gyfer chwyddiant.

Bydd y Corff Adolygu'n ystyried y dystiolaeth a gaiff ynghylch ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae mwy o wybodaeth ar gael am waith y Corff Adolygu yn www.ome.uk.com

## Tâl aelodau'r Bwrdd ac uwch weision sifil

Pennwyd cyflogau Uwch-reolwyr Swyddfa Cymru gan bwyllgor tâl y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn unol â'r rheolau sydd ym Mhennod 7.1 o Atodiad A i God Rheolwyr y Gwasanaeth Sifil.

Mae dyfarniadau tâl ar sail perfformiad wedi'u seilio ar asesiad o berfformiad ar sail amcanion y cytunodd yr unigolyn a'r rheolwr llinell arnynt ar ddechrau'r flwyddyn adrodd. Bydd perfformiad yn effeithio hefyd ar unrhyw elfen o fonws a ddyfernir.

## Contractau Gwasanaeth

Penodir staff i'r Gwasanaeth Sifil yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, sy'n pennu y bydd penodiadau'n cael eu gwneud yn ôl haeddiant ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond mae hefyd yn nodi o dan ba amgylchiadau y ceir gwneud penodiadau fel arall.

Oni bai fod datganiad i'r gwrthwyneb isod, penodiadau penagored sydd gan y swyddogion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Byddai terfyniad cynnar, heblaw am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael iawndal yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae mwy o wybodaeth ar gael am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.independent.gov.uk.

## Cyflogau a hawliau pensiwn Gweinidogion

Mae'r tablau isod yn dangos cyflogau, buddion trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn Gweinidogion. Mae'r ffigurau cyflog yn cynnwys pob lwfans sy'n daladwy gan Swyddfa Cymru, ond mae eitemau cyfwerth â blwyddyn lawn wedi'u cyfrifo heb gynnwys lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia.

Yng nghyswllt Gweinidogion yn Nhŷ'r Cyffredin, dim ond cost y tâl gweinidogol ychwanegol y bydd Adrannau yn ei hysgwyddo; mae'r cyflog am wasanaethu fel AS (£65,738 ar 1 Ebrill 2010), a chost y gwahanol lwfansau y mae ganddynt hawl i'w derbyn, yn cael eu hysgwyddo'n ganolog.

## Tâl (cyflog a thaliadau mewn nwyddau)

| Tâl | 2012-13 | | 2011-12 | |
|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Cyflog (yn cynnwys lwfansau) £ | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) £ | Cyflog (yn cynnwys lwfansau) £ | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) £ |
| Y Wir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (hyd 4 Medi 2012)* | 46,458 (68,827 cyfwerth â blwyddyn lawn) | dim | 68,827 | dim |
| Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (o 4 Medi 2012)** | 49,647 (68,827 cyfwerth â blwyddyn lawn) | dim | 23,697 | dim |
| Stephen Crabb AS, Is-ysgrifennydd Seneddol (o 5 Medi 2012) *** | dim*** | dim | dim | dim |
| Y Farwnes Randerson, Is-ysgrifennydd Seneddol (o 5 Medi 2012) *** | dim*** | dim | dim | dim |

**Nodiadau i'r tabl:**

* Mae'n cynnwys tâl am golli swydd o £17,207 i Cheryl Gillan wedi iddi ymadael â swydd yr Ysgrifennydd Gwladol.

** Roedd David Jones AS yn Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru hyd Fedi 2012, ac yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ôl hynny. Mae ei gyflog am 2012-13 yn adlewyrchu ei benodiad yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru o fis Medi.

*** Ar ôl ad-drefnu'r Cabinet ym Medi 2012, penodwyd Stephen Crabb AS a'r Farwnes Randerson ill dau'n Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymru. Rolau rhan-amser sydd ganddynt yn Swyddfa Cymru gan fod dyletswyddau ychwanegol gan y ddau ohonynt; mae eu costau tâl yn cael eu hysgwyddo gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn y drefn honno.

| Buddion Pensiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Pensiwn a Gronnir yn 65 oed ar 31 Mawrth 2013 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed £000 | CETV ar 31 Mawrth 2013 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2012 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
| Y Wir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (hyd 4 Medi 2012) | 4728 | 0-2.5 | 80 | 63 | 7 |
| David Jones AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (o 4 Medi 2012) | 2585 | 0-2.5 | 45 | 23 | 14 |
| Stephen Crabb AS, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru (o 5 Medi 2012)* | amh. | amh. | amh. | amh. | amh. |
| Y Farwnes Randerson, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru (o 5 Medi 2012)* | amh. | amh. | amh. | amh. | amh. |

**Nodiadau i'r tabl:**

Mae'r pensiwn a gronnwyd yn 2012-13 wedi'i ddatgan yn swm gwirioneddol yn hytrach na'i gynnwys mewn bandiau fel y gwnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw ffigurau 2011-12 wedi'u hailddatgan. Cyfrifwyd y CETV ar 31 Mawrth 2013 (a gyhoeddwyd) ar sail rhagdybiaethau actiwaraidd a oedd yn gymwysadwy ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r CETV ar 31 Mawrth 2013 (wedi'i ailgyfrifo) yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol gan gymryd y bydd y rhagdybiaethau hynny ynghylch arenillion yn cael eu crisialu.

* Ar ôl ad-drefnu'r Cabinet ym Medi 2012, penodwyd Stephen Crabb AS a'r Farwnes Randerson ill dau'n Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymru. Rolau rhan-amser sydd ganddynt yn Swyddfa Cymru gan fod dyletswyddau ychwanegol gan y ddau ohonynt; mae eu costau tâl yn cael eu hysgwyddo gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn y drefn honno.

Lle nad yw'n berthnasol: ni chyhoeddwyd unrhyw wybodaeth berthnasol.

## Pensiynau Gweinidogion

Darperir buddion pensiwn i Weinidogion gan Gronfa Bensiwn Gyfrannol y Senedd (PCPF). Mae'r cynllun wedi'i wneud dan statud (mae'r rheoliadau yn Offeryn Statudol OS 1993 Rhif 3253, fel y'i diwygiwyd).

Mae Gweinidogion sy'n Aelodau Seneddol hefyd yn cael cronni pensiwn AS dan y PCPF (nid yw'r manylion hynny yn yr adroddiad hwn). Mae'r trefniadau ar gyfer Gweinidogion yn darparu buddion ar sail 'cyflog cyfartalog' gan gynnwys holl wasanaeth y Gweinidog. Mae'r gyfradd gronni yn 1/40 er 15 Gorffennaf 2002 (neu 5 Gorffennaf 2001 i'r rheini a ddewisodd ôl-ddyddio'r newid) ond mae Gweinidogion, yn yr un modd â phob aelod arall o'r PCPF, yn gallu dewis cyfradd gronni o 1/50 a chyfradd is o gyfraniad gan y cyflogai.

Bydd buddion yn daladwy i Weinidogion yr un pryd ag y daw buddion yn daladwy i ASau dan y PCPF neu, yn achos y rheini nad ydynt yn ASau, wrth ymddeol o'r swydd Weinidogol yn 65 oed neu'n hŷn. Caiff pensiynau eu cynyddu'n flynyddol ar sail newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Bydd aelodau'n talu cyfraniadau o 6% o'u cyflog Gweinidogol os ydynt wedi dewis y gyfradd gronni o 1/50 neu 10% os ydynt wedi dewis y gyfradd gronni o 1/40. Telir cyfraniad cyflogwr hefyd gan y Trysorlys, sef gweddill y gost sydd wedi'i nodi gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae hyn yn 26.8% o gyflog y Gweinidog ar hyn o bryd.

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y bydd gan y Gweinidog hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd 65 oed, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes yn 65 oed.

## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Dyma werth cyfalafog y buddion y mae'r aelod wedi'u cronni yn y cynllun pensiwn ar adeg benodol ar sail asesiad actiwaraidd. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion y mae'r aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn wrth gefn sy'n daladwy i briod o'r cynllun. Mae CETV yn daliad gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun gan ddewis trosglwyddo'r buddion y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w holl wasanaeth Gweinidogol, nid ei benodiad cyfredol yn Weinidog yn unig. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV

Dyma elfen y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd sy'n cael ei ariannu gan y Trysorlys. Nid yw'n cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y Gweinidog. Caiff ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cyflogau a hawliau pensiwn Uwch-reolwyr

Mae'r ffigurau cyflog yn cynnwys pob lwfans sy'n daladwy gan Swyddfa Cymru, ond mae'r eitemau cyfwerth â blwyddyn lawn wedi'u cyfrifo heb gynnwys lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia. Caiff bonysau eu seilio ar lefelau perfformiad ac fe'u rhoddir drwy'r broses arfarnu. Mae'r bonysau a gofnodwyd ar gyfer 2012–13 yn ymwneud â pherfformiad yn 2011–12 ac mae'r bonysau a gofnodwyd er mwyn cymharu ar gyfer 2011–12 yn ymwneud â pherfformiad yn 2010–11.

Cafodd yr Uwch-reolwyr gymorth gan yr Uwch-swyddogion canlynol a oedd hefyd yn aelodau o un ai'r Pwyllgor Rheoli neu'n bresennol ym Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg: Tricia Quiller-Croasdell, Dawn Brace, Mark Williams a Gill Lambert.

Mae'r tablau isod yn dangos cyflogau, buddion trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn yr Uwch-reolwyr:

| Tâl | 2012–13 | | | 2011–12 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uwch-reolwyr | Cyflog heb fonysau (yn cynnwys lwfansau) £000 | Taliadau bonws £000 | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) £ | Cyflog heb fonysau (yn cynnwys lwfansau) £000 | Taliadau bonws £000 | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) £ |
| Fiona Adams-Jones Pennaeth Swyddfa Cymru† (hyd 31 Rhagfyr 2012) | 70–75 | | 10,200 | 90–95 | | 13,300 |
| Glynne Jones Cyfarwyddwr Dros Dro††, (o 2 Ionawr 2013) | 75–80 | 5–10 | | 70–75 | 5–10 | |
| Tim Hemmings Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi (hyd 30 Mehefin 2012) | 15–20 | | | 60–65 | | 6,300 |
| Stephen Hillcoat Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu | 70–75 | | | 65–70 | | |
| Geth Williams Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol (o fis Gorffennaf 2012) | 50–55 | | | amh. | amh. | amh. |
| Sian Oborne Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi ††† (o 2 Ionawr 2013) | 15–20 | | 2,000 | amh. | amh. | amh. |

† Roedd Fiona Adams-Jones ar fenthyg o Lywodraeth Cymru hyd 31 Rhagfyr 2012. Swyddfa Cymru a dalodd gostau ei swyddfa a'i chyfleustodau yn Llundain.

†† Glynne Jones – cyn ei benodi'n Gyfarwyddwr Dros Dro, roedd Glynne yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad ac yn Ddirprwy Bennaeth y Swyddfa hyd fis Gorffennaf 2012 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Polisi hyd 31 Rhagfyr 2012.

††† Mae Sian Oborne ar fenthyg o Lywodraeth Cymru; Swyddfa Cymru a dalodd gostau ei swyddfa a'i chyfleustodau yn Llundain.

Lle nad yw'n berthnasol: ni chyhoeddwyd unrhyw wybodaeth berthnasol.

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

| Tâl | 2012-13 | | | 2011-12 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog heb fonysau (yn cynnwys lwfansau) £000 | Bonysau 2011-12 a dalwyd yn 2012-13 £000 | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) £ | Cyflog heb fonysau (yn cynnwys lwfansau) £000 | Bonysau 2010-11 a dalwyd yn 2011-12 £000 | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) £ |
| David Crawley Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Rheoli a Chyfarwyddwr Anweithredol, Swyddfa Cymru | 10-15 | dim | dim | 5-10 | dim | dim |
| Ian Summers, Cyfarwyddwr Anweithredol, Swyddfa Cymru | 5-10 | dim | dim | 5-10 | dim | dim |

## Lluosrifau Tâl

Mae'n ofynnol bod cyrff adrodd yn datgelu'r berthynas rhwng cyflog yr unigolyn sy'n cael y tâl mwyaf yn y sefydliad ac enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad.

£102,700 oedd cyflog yr unigolyn a gafodd y tâl mwyaf yn Swyddfa Cymru yn y flwyddyn ariannol 2012-13. (Cyfrifwyd y cyflog drwy gymryd canolbwynt y band £90,000 - 95,000, ynghyd â buddion mewn nwyddau.) Roedd hyn yn 3.7 gwaith cyflog canolrifol y gweithlu, sef £24,894.

Cyflog yr unigolyn uchaf ei dâl yn Swyddfa Cymru ym mlwyddyn ariannol 2011-12 oedd £105,800. Roedd hyn yn 3.6 gwaith cyflog canolrifol y gweithlu, sef £29,500.

| Tâl | 2012-13 | | 2011-12 | |
|---|---|---|---|---|
| Canolrif Staff | Nifer | £'000 | Nifer | £'000 |
| Cyfanswm tâl y staff parhaol (heb gynnwys y Cyfarwyddwr uchaf ei dâl) | | 1,839 | | 2,876 |
| Cyfanswm y staff parhaol (heb gynnwys y Cyfarwyddwr uchaf ei dâl) | *47 | | *56 | |
| | | | | |
| Tâl canolrifol y staff parhaol | | 24.9 | | 29.5 |
| | | | | |
| Band cyflog canolrifol y Cyfarwyddwr uchaf ei dâl (gan gynnwys buddion mewn nwyddau) | | 102.7 | | 105.8 |
| | | | | |
| Lluosrif o dâl canolrifol y staff parhaol | | 3.7 | | 3.6 |

* Nodyn i'r tabl: Nifer y staff ar y gyflogres, heb gynnwys y Cyfarwyddwr uchaf ei dâl, ar 31 Mawrth.

## Iawndal am golli swydd

Nid oedd unrhyw uwch-reolwyr wedi derbyn iawndal yn 2012-13 (£Dim yn 2011-12)

## Contractau Gwasanaeth

| Uwch-reolwyr | Dyddiad cychwyn y contract | Y cyfnod sy'n weddill (blynyddoedd) | Cyfnod rhybudd (misoedd) |
|---|---|---|---|
| Fiona Adams-Jones<br>Pennaeth Swyddfa Cymru†( hyd 31 Rhagfyr 2012) | 25 Chwefror 1974 | 6 | 3 |
| Glynne Jones<br>Cyfarwyddwr Dros Dro †† , (o 2 Ionawr 2013) | 16 Ionawr 1989 | 20 | 3 |
| Tim Hemmings<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi (hyd 30 Mehefin 2012) | 5 Medi 1994 | 26 | 3 |
| Stephen Hillcoat<br>Dirprwy Gyfarwyddwr a Phrif Ysgrifennydd Preifat | 26 Tachwedd 1986 | 21 | 3 |
| Geth Williams<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol (o fis Gorffennaf 2012) | 2 Tachwedd 1992 | 17 | 3 |
| Sian Oborne<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi (o 2 Ionawr 2013) | 7 Chwefror 2000 | 33 | 3 |

**Nodiadau i'r tabl:**

† Roedd Fiona Adams-Jones ar fenthyg o Lywodraeth Cymru hyd 31 Rhagfyr 2012. Swyddfa Cymru a dalodd gostau ei swyddfa a'i chyfleustodau yn Llundain.

†† Glynne Jones - cyn ei benodi'n Gyfarwyddwr Dros Dro, roedd Glynne yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad ac yn Ddirprwy Bennaeth y Swyddfa hyd fis Gorffennaf 2012 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Polisi hyd 31 Rhagfyr 2012.

Nid oedd contractau'n cael eu rhoi i Uwch Weision Sifil tan 1996; os oedd pobl wedi ymuno cyn cyflwyno contractau, mae'r tabl yn dangos eu dyddiad ymuno.

Y cyfnod sy'n weddill yw un ai cyfnod y contract sy'n weddill ar gontractau tymor penodol neu pryd y bydd unigolyn yn cyrraedd oedran pensiwn.

## Buddion Pensiwn

| Uwch-reolwyr | Pensiwn a gronnwyd a'r cyfandaliad cysylltiedig ar yr oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2013 £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar yr oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2012 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2013 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2012 (wedi'i ailgyfrifo) £000 | Cynnydd/ gostyngiad gwirioneddol yn y CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Fiona Adams-Jones Pennaeth Swyddfa Cymru†( hyd 31 Rhagfyr 2012) | 40-45 â chyfandaliad 130-135 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad 0-2.5 | 935 | 892 | (11) |
| Glynne Jones Cyfarwyddwr Dros Dro †† , (o 2 Ionawr 2013) | 20-25 â chyfandaliad 65-70 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad 0-2.5 | 352 | 317 | 15 |
| Tim Hemmings Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi (hyd 30 Mehefin 2012) | 5-10 plus â chyfandaliad 25-30 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad 0-2.5 | 130 | 127 | 1 |
| Stephen Hillcoat Dirprwy Gyfarwyddwr a Phrif Ysgrifennydd Preifat | 20-25 â chyfandaliad 70-75 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad 0-2.5 | 344 | 312 | 13 |
| Geth Williams Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol (o fis Gorffennaf 2012) | 15-20 â chyfandaliad 45-50 | 0-2.5 â chyfandaliad 2.5-5 | 272 | amh | amh |
| Sian Oborne Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi (o 2 Ionawr 2013) | 10-15 â chyfandaliad 30-35 | 0-2.5 â chyfandaliad | 114 | amh | amh |

**Nodiadau i'r tabl:**

† Roedd Fiona Adams-Jones ar fenthyg o Lywodraeth Cymru hyd 31 Rhagfyr 2012. Swyddfa Cymru a dalodd gostau ei swyddfa a'i chyfleustodau yn Llundain.

†† Glynne Jones - cyn ei benodi'n Gyfarwyddwr Dros Dro, roedd Glynne yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad ac yn Ddirprwy Bennaeth y Swyddfa hyd fis Gorffennaf 2012 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Polisi hyd 31 Rhagfyr 2012.

Lle nad yw'n berthnasol: ni chyhoeddwyd unrhyw wybodaeth berthnasol.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; tâl neu fonysau ar sail perfformiad; goramser; hawliau neilltuedig i gael pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y caiff ei drethu yn y DU. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau cronnus a wnaed gan Swyddfa Cymru ac sydd felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion sydd wedi'u rhoi gan y cyflogwr a'u hystyried yn dâl trethadwy gan Gyllid a Thollau EM. Mae Fiona Adams Jones a Sian Oborne ar fenthyg o Lywodraeth Cymru; Swyddfa Cymru sy'n talu eu costau am swyddfeydd a chyfleustodau yn Llundain.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil berthyn i un o bedwar cynllun â buddion wedi'u diffinio; un ai cynllun 'cyflog terfynol' (*classic, premium* neu *classic plus*); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (*nuvos*). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost y buddion hyn ag arian a gaiff ei ddyfarnu gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau *classic*, *premium, classic plus* a *nuvos* yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Gallai aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai trefniant priodol â buddion wedi'u diffinio neu bensiwn 'prynu arian' o ansawdd da i gyfranddeiliaid gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn 1.5% o'r enillion pensiynadwy yn achos y cynllun *classic* a 3.5% yn achos y cynlluniau *premium, classic plus* a *nuvos*. Mae buddion y cynllun *classic* yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Hefyd, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Yn achos y cynllun *premium*, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun *classic*, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae *classic plus* yn gynllun hybrid sy'n rhoi buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun *classic* gan mwyaf a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 ymlaen sydd wedi'u cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun *premium*.

Yn y cynllun *nuvos* bydd yr aelod yn cronni ei bensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac, yn syth ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, bydd y pensiwn a gronnwyd yn cael ei uwchraddio yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Ym mhob achos, caiff aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd yn Neddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn i gyfranddeiliaid. Bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (yn ôl oed yr aelod) mewn cynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid sydd wedi'i ddewis gan y cyflogai o blith y rhai a gynigiwyd gan banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn talu'r un swm hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd y cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant risg buddion a ddarperir yn ganolog (ar gyfer marwolaeth yn y swydd ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod hawl i'w godi pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd neu wedi mynd heibio i oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 yn achos aelodau *classic, premium* a *classic plus* a 65 yn achos aelodau *nuvos*.

Mae mwy o fanylion ar gael am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservice.gov.uk/pensions

## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Dyma werth cyfalafog y buddion y mae'r aelod wedi'u cronni yn y cynllun pensiwn ar adeg benodol ar sail asesiad actiwaraidd. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion y mae'r aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn wrth gefn sy'n daladwy i briod o'r cynllun. Mae CETV yn daliad gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun gan ddewis trosglwyddo'r buddion y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i holl gyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid ei gyfnod yn y swydd uwch y mae'r datgeliad yn ymwneud â hi yn unig. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'u cronni o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV

Dyma'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall. Caiff ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro**

**25 Mehefin 2013**

# 8 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Swyddfa Cymru i baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fydd yn rhestru'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o'r sefyllfa yn Swyddfa Cymru ac o'i halldro adnoddau net, ei defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol bod y Swyddog Cyfrifyddu yn cydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* a'i fod yn benodol:

- yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon sydd wedi'i gyhoeddi gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion perthnasol ynghylch cyfrifyddu a datgelu, ac yn cymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- yn barnu ac yn amcangyfrif ar sail resymol;
- yn datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwysadwy sydd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn datgelu ac yn egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- yn paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Cyfarwyddwr Dros Dro Swyddfa Cymru yn Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro Swyddfa Cymru. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am warchod asedau Swyddfa Cymru, wedi'u nodi yn *Managing Public Money* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

# 9 Datganiad ar Lywodraethu

Mae'r Datganiad hwn yn egluro ar ba sail y sefydlwyd Swyddfa Cymru; y ffordd y mae'n cael ei llywodraethu a'i rheoli; a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud. Ei bwrpas yw rhoi disgrifiad cynhwysfawr ac addas o'r sail y gall y Swyddog Cyfrifyddu ei defnyddio i roi sicrwydd ynghylch gweithrediad priodol y Swyddfa a'i stiwardiaeth ar arian cyhoeddus.

## Statws a rôl Swyddfa Cymru

Sefydlwyd Swyddfa Cymru yr un pryd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Ei phrif bwrpas yw helpu Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hyrwyddo buddiannau Cymru o fewn y Deyrnas Unedig a sicrhau bod y setliad datganoli yng Nghymru'n gweithio'n rhwydd. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod arian sydd wedi'i ddyfarnu i Lywodraeth Cymru gan y Senedd (Grant Bloc Cymru) yn cael ei dalu'n brydlon. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, ac yn yr un modd â'r holl Adrannau Gwladol eraill, mae Swyddfa Cymru yn gyfrifol am wneud trefniadau cadarn ar gyfer llywodraethu a rheoli risg.

Mae ei Chyfarwyddwr wedi'i ddynodi'n Brif Swyddog Cyfrifyddu. Penodwyd Cyfarwyddwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro yn Ionawr 2013 pan ymddiswyddodd y Cyfarwyddwr blaenorol o'r swydd honno.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cwmpasu'r systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, y mae Swyddfa Cymru'n cael ei chyfarwyddo a'i rheoli drwyddynt, a'r modd y mae'n rhoi cyfrif i'r Senedd am ei gwaith. Mae'n cynnwys y broses y mae Gweinidogion ac uwch-reolwyr yn ei defnyddio i fonitro'r gwaith o gyflawni ei hamcanion a barnu a yw gweithgareddau'r Swyddfa wedi sicrhau canlyniadau priodol a chosteffeithiol. Un o elfennau'r fframwaith yw system gadarn i adnabod a rheoli risg.

## Y fframwaith llywodraethu

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi cyfarwyddyd gwleidyddol i Swyddfa Cymru ac mae'n atebol i'r Senedd. Caiff gymorth gan ddau Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymru, un yn Nhŷ'r Cyffredin ac un yn Nhŷ'r Arglwyddi, a chan dîm bach o weision sifil sy'n cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Swyddfa Cymru.

Bwrdd Strategaeth Swyddfa Cymru sy'n gyfrifol am bennu ei blaenoriaethau polisi a chytuno ar amcanion busnes. Bydd yn adrodd i'r Senedd drwy'r Ysgrifennydd Gwladol ar y cynnydd ar gyflawni amcanion yr Adran. Ei aelodau yw'r tîm Gweinidogol, a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gadeirydd; dau aelod bwrdd anweithredol annibynnol; a Chyfarwyddwr a Dirprwy Gyfarwyddwyr yr Adran.

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Bwrdd Strategaeth ym mis Mehefin 2012 ac ym mis Chwefror 2013, dan gadeiryddiaeth dau Ysgrifennydd Gwladol yn eu tro, o gofio'r newidiadau a fu yn y Cabinet ym Medi 2012. Rhagwelir y bydd y Bwrdd yn parhau i gwrdd ddwywaith neu dair y flwyddyn yn ôl yr anghenion busnes.

Drwy gydol 2012-13, roedd perfformiad a'r cynnydd ar gyflawni polisi yn cael eu goruchwylio gan Bwyllgor Rheoli o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr a oedd yn cynnwys pedwar uwch-reolwr yr Adran (tri o Ionawr 2013) a dau aelod anweithredol annibynnol. Un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Rheoli oedd cyflawni amcanion a chanlyniadau'r sefydliad yn unol â blaenoriaethau strategol y Gweinidogion. Mae'n rhoi'r gallu a'r arweiniad sydd eu hangen i gyflawni pob amcan a sicrhau pob canlyniad.

Yn ogystal â hyn, cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfodydd dwyochrog wythnosol â'r Cyfarwyddwr i drafod polisi, strategaeth a materion Adrannol; a chadeiriodd gyfarfodydd wythnosol o'r uwch dîm rheoli i gydgysylltu a thrafod busnes Adrannol a Gweinidogol a oedd mewn llaw.

Yn 2012-13, cafwyd adolygiad o Gynllun Busnes pedair blynedd yr Adran a'r amcanion Adrannol sydd ynddo gan y Bwrdd Strategaeth a chytunwyd ar ei gynnwys. Roedd y Pwyllgor Rheoli yn gallu ei ddefnyddio wedyn i fonitro perfformiad yr Adran gan ystyried barn a blaenoriaethau'r Gweinidogion. Adolygwyd gweithdrefnau llywodraethu'r Adran gan yr aelod anweithredol annibynnol arweiniol yn rhinwedd ei swydd yn gyd-gadeirydd y Bwrdd Strategaeth drwy ymgynghori ag aelodau'r bwrdd ym Mawrth 2013. Cyflwynwyd Fframwaith newydd ar gyfer y Bwrdd Strategaeth ynghyd â chynllun busnes wedi'i ddiweddaru yn Ebrill 2013.

## Rôl y Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro

Cyfarwyddwr Dros Dro Swyddfa Cymru yw ei Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro. Yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u haseinio iddo yn ei lythyr penodi a'u disgrifio yn *Managing Public Money*, ef sy'n gyfrifol am lywodraethu Swyddfa Cymru.

Disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n effeithiol, yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ac yn dangos safon uchel o uniondeb. Nod y sefydliad yw:

## Llywodraethu

- Bod â strwythur llywodraethu sy'n cyfleu, yn dirprwyo, yn gweithredu ac yn gorfodi penderfyniadau;
- Bod â rheolaethau mewnol dibynadwy i ddiogelu, sianelu a chofnodi'r defnydd o adnoddau yn ôl y bwriad;
- Gweithredu'n briodol gan roi sylw i'r angen am gynnal busnes cyhoeddus yn briodol;
- Trin ei gwsmeriaid a'i gymheiriaid busnes yn deg a gonest;

- Darparu cofnodion amserol, tryloyw a realistig o'i fusnes.

## Penderfynu

- Cynorthwyo ei Weinidogion drwy roi cyngor clir, rhesymedig, amserol a diduedd;
- Gwneud ei holl benderfyniadau'n unol â strategaeth, nodau ac amcanion y sefydliad sydd wedi'u pennu gan Weinidogion a/neu mewn deddfwriaeth;
- Cwrdd â gofynion y Trysorlys ynghylch terfynau ar y defnydd o adnoddau cyhoeddus;
- Rheoli ei staff yn deg, gan arfer polisïau cynhwysol sydd â'r amcan o hyrwyddo ac integreiddio amrywiaeth;
- Cyfleu ei benderfyniadau mewn ffordd agored a thryloyw.

## Rheoli ariannol

- Sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd a phriodol;
- Defnyddio ei adnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol, gan osgoi gwastraff ac afradlondeb;
- Caffael ac arfarnu prosiectau'n wrthrychol ac yn deg, gan geisio sicrhau gwerth da i'r sector cyhoeddus cyfan;
- Defnyddio systemau gwybodaeth reoli i gael sicrwydd ynghylch gwerth am arian ac ansawdd cyflenwi er mwyn gwneud addasiadau amserol;
- Osgoi gorfanylu a gosod costau gormodol am gydymffurfio, ar ei staff ei hun neu ei gwsmeriaid a rhanddeiliaid;
- Bod â threfniadau ysgrifenedig ymarferol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill;
- Defnyddio gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol i wella ei reolaeth ariannol, ei reolaethau mewnol a'i berfformiad.

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gan Swyddfa Cymru sy'n cael ei gadeirio gan aelod bwrdd anweithredol annibynnol ac yn cynnwys un aelod anweithredol annibynnol arall – sy'n gyfrifydd cymwysedig – ac un o uwch-swyddogion Swyddfa Cymru. Mae'r Pwyllgor hwn yn gweithredu'n unol â Llawlyfr y Trysorlys i Bwyllgorau Archwilio ac yn cwrdd yn chwarterol. Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiad llawn o'i effeithiolrwydd ei hun ym mis Rhagfyr. Gofynnodd y Pwyllgor am farn archwilwyr mewnol a Chyfarwyddwr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a daeth i'r casgliad ei fod yn gweithredu'n effeithiol ond bod angen mân addasiadau yn ei brosesau.

Mae gwybodaeth isod am bresenoldeb yn y Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod y flwyddyn ariannol:

## Pwyllgor Rheoli

| Aelod | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **Fiona Adams Jones**[1] –Cyfarwyddwr, Cadeirydd | **3 of 4** |
| **Glynne Jones**[2] – Cyfarwyddwr Dros Dro, Cadeirydd | **4 of 4** |
| **David Crawley** – Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol Arweiniol | **4 of 4** |
| **Ian Summers** – Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol | **4 of 4** |
| **Stephen Hillcoat –** Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat a Chyfathrebu | **4 of 4** |
| **Sian Oborne**[3] – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi | **1 of 4** |
| **Geth Williams**[4] – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Strategaeth a Chyfansoddiad | **3 of 4** |
| **Mark Williams**[5] –Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Phrif Gyfrifydd | **2 of 4** |
| **Tricia Quiller-Croasdell** – Pennaeth Cyfathrebu | **2 of 4** |
| **Tim Hemmings**[6] – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi | **1 of 4** |
| **Dawn Brace**[7] – Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Newid Sefydliadol | **1 of 4** |

**Troednodiadau**

Nodyn 1: Roedd Fiona Adams-Jones ar fenthyg o Lywodraeth Cymru hyd 31 Rhagfyr 2012

Nodyn 2: Glynne Jones - cyn ei benodi'n Gyfarwyddwr Dros Dro, roedd Glynne yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad ac yn Ddirprwy Bennaeth y Swyddfa hyd fis Gorffennaf 2012 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Polisi ac yn Ddirprwy Bennaeth y Swyddfa hyd 31 Rhagfyr 2012

Nodyn 3: Penodwyd Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi yn 1 Ionawr 2013

Nodyn 4: Penodwyd Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Strategaeth a Chyfansoddiad ym mis 1 Gorffennaf 2012

Nodyn 5: Penodwyd Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a'r Prif Gyfrifydd ym mis 16 Gorffennaf 2012

Nodyn 6: Ymadawodd Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi â'r Adran ym mis 30 Gorffennaf 2012.

Nodyn 7: Ymadawodd Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Newid Sefydliadol â'r Adran ym mis Mehefin 2012.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

| Aelod | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **David Crawley** – Cadeirydd, Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol Arweiniol | 4 of 4 |
| **Ian Summers** – Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol | 4 of 4 |
| **Geth Williams**[1] – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Strategaeth a Chyfansoddiad | 3 of 4 |
| **Gill Lambert**[2] – Dirprwy Bennaeth Polisi | 1 of 4 |

**Troednodiadau**

Nodyn 1: Penodwyd Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Strategaeth a Chyfansoddiad i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2012

Nodyn 2: Ymadawodd Dirprwy Bennaeth Polisi â'r Adran a'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2012

Roedd dau Is-bwyllgor arall yn rhan o'r strwythur llywodraethu:

Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch sydd â'r cylch gwaith canlynol:

- Cynghori'r Bwrdd ynghylch sicrhau bod Swyddfa Cymru yn darparu amgylchedd gwaith iach a diogel i'w staff, Gweinidogion ac ymwelwyr;
- Rheoli risgiau iechyd a diogelwch sydd wedi'u pennu a monitro cynnydd ar y Cynllun Corfforaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol;
- Gwella'r perfformiad a'r safonau ar iechyd a diogelwch ymhellach, a cheisio rhagori ar yr holl safonau statudol, codau ymarfer, rheoliadau a gofynion cyfreithiol perthnasol.

Cafwyd un cyfarfod o'r Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch, dan gadeiryddiaeth un o aelodau'r Pwyllgor Rheoli, yn ystod 2012-13. Ystyriwyd amryw o faterion, gan gynnwys hyfforddiant i staff ynghylch cyfrifoldebau wardeiniaid tân.

Is-bwyllgor Newid ac Effeithlonrwydd sydd â'r cylch gwaith canlynol:

- Pennu a chytuno ar yr arbedion effeithlonrwydd i'w hargymell i'r Bwrdd i'w cyflawni yn ystod cyfnod setliad cyllidebol Swyddfa Cymru o ganlyniad i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant diwethaf;
- Arolygu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r prosiect Cydwasanaethau sy'n ceisio symleiddio a chryfhau'r gwasanaethau cefn swyddfa sy'n cynorthwyo Swyddfa Cymru, Swyddfa'r Alban a Swyddfa Gogledd Iwerddon; gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Rheoli yn ôl yr angen;
- Llunio Cynllun Newid ac Effeithlonrwydd, a monitro ei weithredu.

Roedd yr Is-bwyllgor, dan gadeiryddiaeth un o'r Dirprwy Gyfarwyddwyr, wedi nodi argymhellion mewn adroddiad i'r Uwch Dîm Rheoli. Bydd yr argymhellion sydd wedi'u derbyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli i'w cymeradwyo.

## Amcanion Busnes

Mae Cynllun Busnes Swyddfa Cymru wedi pennu'r amcanion strategol a ganlyn (a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd):

***Amcan 1:*** Hyrwyddo economi Cymru a buddiannau economaidd Cymru;

***Amcan 2:*** Goruchwylio a chynnal y setliad datganoli a hwyluso cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru;

***Amcan 3:*** Cynrychioli buddiannau Cymru o fewn Llywodraeth y DU a hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o bolisïau Llywodraeth y DU yng Nghymru;

***Amcan 4:*** Hyrwyddo buddiannau cymdeithasol a diwylliannol Cymru;

***Amcan 5:*** Cynnal ein busnes yn gwrtais, yn effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol

Wrth geisio cyflawni'r amcanion hyn, mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i lynu wrth ei gwerthoedd craidd bob amser. Y rhain yw:

- Rhagoriaeth ac ansawdd da ym mhopeth yr ydym yn ei wneud;
- Ymrwymiad i ddatblygiad a lles ein staff;
- Tryloywder a gweithio mewn partneriaeth.

## Penderfynu a rheoli busnes

Trefnwyd Swyddfa Cymru yn dair is-adran i gyflawni ei swyddogaethau:

1. Polisi a Deddfwriaeth;

2. Y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu;

3. Y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol.

Roedd Dirprwy Gyfarwyddwr yn bennaeth ar bob un o'r rhain ac roedd yn adrodd i'r Cyfarwyddwr. Cafodd cyllidebau eu dirprwyo o fewn pob adran, dan oruchwyliaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr perthnasol.

Roedd cyllidebau'r timau'n cael eu monitro'n fisol hefyd gan yr uwch dîm ac roedd y Pwyllgor Rheoli yn adolygu adroddiadau ariannol chwarterol ac yn eu trafod. Cyfarfu'r uwch dîm rheoli bob wythnos i oruchwylio a chydgysylltu busnes o ddydd i ddydd, materion rheoli, a materion cyllidebol.

Mae'r Adran wedi gwneud Cytundebau Lefel Gwasanaeth â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer y rhan fwyaf o'i hanghenion caffael ac ar gyfer pob math o wasanaethau ar gyfer staffio, adeiladau a materion ariannol. Weithiau, ond yn anaml, bydd yn cynnal prosesau caffael bach unigol drosti'i hun o dan reolau caffael y Llywodraeth.

## Perfformiad

Cafwyd adolygiadau Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn ar y canlynol: y cydwasanaeth seneddol; rheolaeth ar gyfer parhad busnes; cynllunio'r gweithlu; rheoli cyllidebau; sefydlu Comisiwn Silk a rôl barhaus Swyddfa Cymru; a chytundebau lefel gwasanaeth â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Roedd yr adroddiad ffurfiol ar bob un o'r adolygiadau hyn yn rhoi sicrwydd rhesymol bod fframwaith cyffredinol yr Adran ar gyfer risg, rheoli a llywodraethu yn ddigonol i gyflawni ei hamcanion a bod y prif risgiau i'r Adran wedi'u rheoli'n effeithiol.

Rhai enghreifftiau o faterion a drafodwyd gan y Pwyllgor Rheoli yn ystod y flwyddyn yw:

- Adolygiad o'r Cynllun Busnes Adrannol;
- Risgiau Strategol;

- Symud Swyddfa Caerdydd;
- Gwaith cyfalaf i gynnal ac atgyweirio Tŷ Gwydyr.

Rhai o'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg oedd:

- Cytundebau Lefel Gwasanaeth;
- Cofrestrau risg yr Adran a'r gweithdai blynyddol i staff ar reoli risg;
- Adolygu a diweddaru polisi Swyddfa Cymru ar fesurau gwrth-dwyll a chwythu'r chwiban;
- Yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Adnoddau.

## Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Rhoddodd Swyddfa Cymru ystyriaeth lawn i ganllawiau Trysorlys EM ar Lywodraethu Corfforaethol yn Adrannau Llywodraeth Ganolog (Gorffennaf 2011) wrth addasu a chryfhau ei phrosesau i adlewyrchu ei statws yn Adran annibynnol ond yn unol â'i maint, ei chyllideb a'i swyddogaeth – sef darparu cymorth a chyngor ar bolisi i Weinidogion Swyddfa Cymru yn hytrach na chyflenwi rhaglenni neu wasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Yr unig feysydd lle nad yw'r Adran yn llwyr gydymffurfio â'r canllawiau yw:

- Nifer yr Aelodau Bwrdd Anweithredol Annibynnol. Ar ôl ystyriaeth ddyladwy gan y Cyfarwyddwr, y Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, yn ogystal â thrafodaethau a oedd yn cynnwys archwilwyr mewnol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, penderfynodd yr Adran beidio â chynyddu nifer yr Aelodau Bwrdd Anweithredol Annibynnol. Teimlir bod yr aelodaeth bresennol yn gymesur â maint yr Adran (tua 50 o staff). Mae'r ddau Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol presennol yn meddu ar sgiliau a phrofiad gwerthfawr sy'n arbennig o berthnasol i Swyddfa Cymru. Mae'r Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol arweiniol yn meddu ar brofiad helaeth o gyllid cyhoeddus gan ei fod yn gyn-Swyddog Cyfrifyddu ac mae ganddo brofiad cyfredol eang o fod yn aelod Bwrdd ar lefel uwch mewn sefydliadau cyhoeddus ac elusennol mawr. Mae'r ail Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol – sy'n gyfrifydd cymwysedig – yn meddu ar brofiad sylweddol o gyfrifyddu cyhoeddus ac archwilio ar lefel uwch yn ogystal â gweithredu yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Bydd yr Adran yn ceisio recriwtio Aelodau Bwrdd Anweithredol Annibynnol newydd tua diwedd 2013-14 pan ddaw'r tymhorau presennol i ben;
- Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys o leiaf dri aelod, cafwyd aelod gweithredol ychwanegol i roi mwy o eglurhad o waith yr Adran ar bolisi a deddfwriaeth;
- Yn dilyn yr adolygiad o'r Bwrdd Strategaeth, penderfynodd Gweinidogion y dylid parhau i gynnal cyfarfodydd ddwywaith neu dair y flwyddyn (yn hytrach na phedair gwaith) oherwydd maint bach yr Adran. Cyfarfu'r Bwrdd Strategaeth ddwywaith yn 2012-13.

## Adnabod a rheoli risg

Pwrpas system reolaeth fewnol Swyddfa Cymru yw adnabod risgiau i fusnes a'u rheoli ar lefel resymol. Mae wedi'i seilio ar broses barhaus sydd â'r amcan o adnabod a blaenoriaethu risgiau er mwyn cyflawni amcanion Swyddfa Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'u heffaith ddichonol, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae cadernid y system hon i'w weld o hyd yn y ffordd y mae'r Adran yn trafod y Comisiwn annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru. Sefydlwyd y comisiwn hwn o ganlyniad i ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu'r Llywodraeth Glymblaid ac roedd yn galw am neilltuo adnoddau sylweddol gan yr Adran ar gyfer sefydlu a chynnal y Comisiwn a'i Ysgrifenyddiaeth. Y prif risg a bennwyd oedd na fyddai digon o adnoddau gan yr Adran i gwrdd ag anghenion y Comisiwn, fel na fyddai'n gallu cyflawni ei amcanion.

Ar ôl pennu'r prif risgiau, rhoddwyd cynlluniau ar waith i sicrhau bod yr ymrwymiad yn cael ei gyflawni. Bellach mae'r Comisiwn wedi cwblhau rhan gyntaf ei gylch gwaith, ac mae'n gweithio ar yr ail ran ar hyn o bryd. Rydym yn parhau â chynlluniau wrth gefn fel y bydd y Comisiwn yn cael y cymorth y mae arno ei angen i gyflawni ei fandad yn unol â'r amserlen a gytunwyd.

Dangoswyd ymateb yr Adran i risg hefyd yn y ffordd y mae wedi trafod materion sy'n ymwneud ag achosion hanesyddol o gam-drin plant yng Ngogledd Cymru. Y prif risgiau a bennwyd oedd methu ag ymateb yn brydlon a phendant i faterion pwysig sy'n dod i'r golwg, methu â darparu adnoddau staff a methu â sicrhau bod cofnodion hanesyddol ar gael i'r ymchwiliad a sefydlwyd wedyn. Chwaraeodd yr Adran ran allweddol wrth sefydlu'r ddau adolygiad ac ymatebodd yn gyflym drwy ddarparu staff ar gyfer un o'r timau adolygu yn ogystal â'r holl ddeunydd perthnasol ar y mater a oedd ym meddiant yr Adran.

Y prif risg gweithredol a bennwyd oedd methu â sicrhau taliad i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Adran yn lliniaru'r risg hwn drwy ddefnyddio cytundebau lefel gwasanaeth sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, prosesau a gytunwyd ar gyfer tynnu cyllid i lawr a chynlluniau wrth gefn.

## Y gallu i ddelio â risg

Cafodd risgiau eu pennu a'u cyfleu ar lefel strategol ac ar lefel weithredol gan y Pwyllgor Rheoli ac ar lefel weithio gan y canghennau yn y tair is-adran. Roedd cofrestrau risg y canghennau'n ategu ac yn cyfrannu at y Gofrestr Risg Adrannol gyffredinol a gafodd ei hadolygu bob chwarter blwyddyn gan y Pwyllgor Rheoli. Craffodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar y ffordd yr oedd y prif risgiau wedi'u trafod mewn dau o'i gyfarfodydd chwarterol ac edrychodd yn fwy manwl ar risgiau penodol a'r ffordd yr oeddent wedi'u trafod.

## Fframwaith risg a rheoli

Roedd Swyddfa Cymru wedi mabwysiadu Strategaeth a Fframwaith Polisi ar gyfer Rheoli Risg a oedd wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Rheoli ar ôl ystyried cyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Y prif elfennau oedd:

- Proses ffurfiol i adnabod, gwerthuso, rheoli a rhoi gwybod am risg;
- System dadansoddi a chofnodi sy'n pennu risgiau i amcanion, effaith risgiau a'u tebygolrwydd, camau lliniaru cyfredol ac arfaethedig a pherchnogion risg unigol;
- Rhaglen ffurfiol a disgyblaethau rheoli prosiect sy'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg;
- Gweithdai blynyddol ar gyfer hyfforddi a hybu ymwybyddiaeth o reoli risg.

Hwyluswyd effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg drwy waith yr archwilwyr mewnol, yr uwch-reolwyr a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a thrwy'r argymhellion gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Roedd yr holl reolaethau allweddol a bennwyd ar ôl asesu'r prif risgiau busnes a'r meysydd ariannol allweddol canlynol wedi cael eu rhoi ar waith. Yn benodol, roedd y rhain yn rhoi sicrwydd helaeth:

- bod yr holl wariant/incwm wedi'i gofnodi a'i wario a'i dderbyn yn briodol o ran priodoldeb a rheoleidd-dra;
- bod y gwariant/incwm a oedd wedi'i wario a'i dderbyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, gan gynnwys y rheini sy'n gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithgareddau Swyddfa Cymru;
- bod gwariant wedi'i ddosbarthu'n briodol a bod gwariant wedi'i drosglwyddo rhwng dosbarthiadau gwariant yn unol â'r Llawlyfr Cyllid;
- nad oedd rheolau ar ddirprwyo awdurdod ariannol wedi'u torri;
- bod cyllidebau wedi'u monitro'n rheolaidd, bod gwariant gwirioneddol wedi'i gymharu â rhagolygon, a bod y Bwrdd wedi'i hysbysu am amrywiannau;
- bod rheolaethau ar waith i ddiogelu asedau Swyddfa Cymru rhag eu defnyddio neu eu gwaredu heb awdurdod;
- bod gweithdrefnau rheoli rhag twyll ar waith;
- bod asedau gwybodaeth wedi'u monitro a bod risgiau wedi'u hasesu a'u cofnodi'n briodol a bod ansawdd wedi'i adolygu (gweler yr adran ar sicrhau gwybodaeth isod);
- bod gweithdrefnau rheoli ar waith ar gyfer yr Uwch-swyddog sy'n Gyfrifol am Wybodaeth i ddiogelu gwybodaeth;
- nad oedd y polisi ar letygarwch a rhoddion wedi'i dorri.

## Risg a Sicrwydd Gwybodaeth

### Asedau Gwybodaeth

Nid yw Swyddfa Cymru yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd ac nid yw'n dal cronfeydd mawr o ddata personol. Mae ychydig o ddata personol yn cael eu dal ar ffurf cofnodion adnoddau dynol a chyllid, a gohebiaeth oddi wrth aelodau o'r cyhoedd ac oddi wrth Aelodau Seneddol (ASau), Aelodau Cynulliad (ACau) ac Arglwyddi. Mae gwybodaeth arall sy'n cael ei dal gan yr Adran yn cynnwys papurau polisi a chorfforaethol, a phapurau Pwyllgorau Cabinet.

### Risgiau

Mae Swyddfa Cymru wedi pennu'r risgiau penodol canlynol i wybodaeth:

1. Colli gwybodaeth, yn enwedig pan fydd staff yn teithio;
2. Peryglu gwybodaeth drwy fynediad sydd heb ei awdurdodi;
3. Colli neu lygru gwybodaeth oherwydd methiant mewn systemau technegol;
4. Colli gwybodaeth drwy ddwyn.

Gan mai ychydig o wybodaeth sensitif sy'n cael ei dal gan Swyddfa Cymru, nid oes graddau o risg sy'n galw am strategaethau rheoli arbennig neu gynhwysfawr.

### Rheoli risgiau

**Risg 1 Colli gwybodaeth, yn enwedig pan fydd staff yn teithio:**

- Rhoddwyd llyfryn i staff sy'n ymwneud yn benodol â'r Adran. Mae'n rhestru eu cyfrifoldebau ac yn rhoi canllawiau ar drafod gwybodaeth. Caiff ei ddiweddaru a'i ddosbarthu i'r holl staff yn 2013-14;
- Mae staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am y rheolau ar gyfer diogelu gwybodaeth wrth deithio;
- Mae gan yr Adran bolisi desg glir ar gyfer ein dwy swyddfa sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth sensitif yn cael ei storio'n briodol;
- Mae staff wedi'u hysbysu am weithdrefnau i roi gwybod am golli gwybodaeth sensitif ac eitemau fel ffonau clyfar.

**Risg 2 Peryglu gwybodaeth drwy fynediad sydd heb ei awdurdodi**

- Rhoddwyd canllawiau diogelwch i staff ar gyfer defnyddio dyfeisiau electronig ar ymweliadau â gwledydd tramor;
- Mae system rheoli mynediad ar gyfer rheoli cofnodion sy'n cyfyngu ar y ffeiliau y caiff defnyddwyr eu gweld, ac mae hawliau mynediad yn cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- Mae ffeiliau adnoddau dynol yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinetau dan glo ac mewn ystafell y gellir ei chloi. Dechreuwyd ar brosiect i drosglwyddo ffeiliau adnoddau dynol ar bapur i fformat electronig yn 2012 a bydd yn parhau drwy gydol 2013, a bydd hyn yn cryfhau'r rheolaethau ymhellach.

**Risg 3 Colli neu lygru gwybodaeth oherwydd methiant mewn systemau technegol**

Rydym wedi cael sicrwydd gan gyflenwyr TG y Weinyddiaeth Cyfiawnder, dan gytundeb lefel gwasanaeth, fod gwybodaeth yn ddiogel, bod copïau wrth gefn o ddata'n cael eu gwneud yn rheolaidd a bod bodd eu defnyddio i adfer data os bydd angen; a bod ffeiliau a data hen a darfodedig yn cael eu dinistrio'n ddiogel.

**Risg 4 Colli gwybodaeth drwy ddwyn**

- Cafodd trefniadau diogelwch eu huwchraddio yn 2011–12;
- Mae staff yn swyddfa Caerdydd yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd i gwestiynu dieithriaid y maent yn eu gweld ar lawr y swyddfa;
- Pwrpas y polisi desg glir yw atal dogfennau rhag cael eu gadael yn anniogel, ac mae nifer o hapwiriadau wedi dangos bod y polisi'n cael ei ddilyn;
- Darparwyd dull diogel o gludo papurau ac eitemau sensitif eraill i staff pan symudwyd y swyddfa i Caspian Point.

## Canlyniadau yn ystod 2012–13

Ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod 2012–13. Roedd yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu gwybodaeth erbyn diwedd Mawrth 2013.

## Adroddiad cryno gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Rhoddodd y Pwyllgor sylw manwl drwy gydol y flwyddyn i faterion cyllid, cyfrifyddu a llywodraethu Swyddfa Cymru o gofio'r pwysigrwydd o sicrhau bod cofnodion cywir a dibynadwy'n cael eu cyflwyno i'w harchwilio. Parhaodd y Pwyllgor hefyd â'r gwaith manwl o oruchwylio'r prosesau rheoli risg ac ystyriodd nifer o faterion cyllid penodol. Ar sail ei waith yn ystod y flwyddyn a'r adroddiadau a ddarparwyd gan yr archwilwyr mewnol, gall y Pwyllgor roi sicrwydd rhesymol i'r Swyddog Cyfrifyddu ar ddigonoldeb y trefniadau archwilio ac ar y trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli a rheoleiddio risg sydd ar waith yn yr Adran.

## Asesiad o'r system reolaeth fewnol

Ar sail yr adolygiad hwn, gallaf roi sicrwydd bod y system reolaeth fewnol yn Swyddfa Cymru yn ddigonol i gyflawni amcanion Swyddfa Cymru. Rhoddir y sicrwydd hwn ar y sail bod camau wedi'u cymryd i leihau neu ddileu'r risg, lle y pennwyd bod Swyddfa Cymru yn agored i risg, neu fod natur y risg wedi'i deall yn llawn a'i derbyn.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro**

**25 Mehefin 2013**

# 10 Tystysgrif Archwilio Swyddfa Cymru 2012-13

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr yr Adran, y Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau o Ran Ecwiti'r Trethdalwyr; a nodiadau cysylltiedig. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig. Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a amlinellwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel ei bod wedi'i harchwilio.

### Cyfrifoldebau penodol y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Yn ôl y safonau hyn, mae'n ofynnol fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol heb gamddatganiadau materol, boed hynny wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r Adran ac a ydynt wedi cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaethpwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu; cyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i ganfod anghysonderau materol o'u cymharu â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os byddaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau ymddangosiadol sy'n faterol, byddaf yn ystyried eu goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Mae'n ofynnol fy mod yn cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad o Gyflenwad Seneddol yn cyflwyno'r alldro'n briodol yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd drostynt ac nad ydynt wedi mynd dros y cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd drostynt yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Di-gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Net am Arian Parod. Mae'n ofynnol i mi hefyd gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd materol:

- mae'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol yn cyflwyno'r alldro'n briodol yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd drostynt ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 ac mae'n dangos nad oedd y cyfansymiau'n fwy na hynny; ac
- mae'r incwm a gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion yr Adran ar 31 Mawrth 2013 ac o'i chostau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; a
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn adrannau'r Adroddiad Blynyddol o'r enw Cyflawniadau drwy Amcan 2012/13, Sylwebaeth Rheoli a Datganiad Llywodraethu am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd parthed y materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu ni chafwyd cofnodion digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i gael ei harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r cofnodion; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllaw Trysorlys EM.

## Adroddiad Tâl

Nid oes gennyf ddim arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse** **27 Mehefin 2013**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
**157-197 Buckingham Palace Road**
**Victoria**
**Llundain**
**SW1W 9SP**

# 11 Cyfrifon Statement of Parliamentary Supply

## Datganiad o Gyflenwad Seneddol

### Crynodeb o'r Alldro Adnoddau & Cyfalaf 2012–13

| | | 2012-13 Amcan | | | 2012-13 Alldro | | | Alldro drwy bleidlais o'i gymharu â'r amcan: arbediad / (dros ben) 2012-13 | 2011-12 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Pleidlais | Dim pleidlais | Cyfanswm | Pleidlais | Dim pleidlais | Cyfanswm | | Cyfanswm |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | |
| – Adnoddau | 2.1 | 6,166 | – | 6,166 | 5,423 | – | 5,423 | 743 | 5,178 |
| – Cyfalaf | 2.2 | 724 | – | 724 | 316 | – | 316 | 408 | 185 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | |
| – Adnoddau | 2.1 | (20) | – | (20) | (20) | – | (20) | – | 109 |
| – Cyfalaf | 2.2 | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Total Budget** | | **6,870** | **–** | **6,870** | **5,719** | **–** | **5,719** | **1,151** | **5,472** |
| **Non-Budget** | | | | | | | | | |
| – Adnoddau | 2.1 | 12,860,823 | – | 12,860,823 | 12,786,547 | – | 12,786,547 | 74,276 | 12,791,783 |
| **Cyfanswm** | | **12,867,693** | **–** | **12,867,693** | **12,792,266** | **–** | **12,792,266** | **75,427** | **12,797,255** |
| Cyfanswm Adnoddau | | 12,866,969 | – | 12,866,969 | 12,791,950 | – | 12,791,950 | 75,019 | 12,797,070 |
| Cyfanswm Cyfalaf | | 724 | – | 724 | 316 | – | 316 | 408 | 185 |
| **Cyfanswm** | | **12,867,693** | **–** | **12,867,693** | **12,792,266** | **–** | **12,792,266** | **75,427** | **12,797,255** |

**Gofyniad arian parod net 2012 -13**

| | | 2012-13 | | | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Amcan | Alldro | Alldro o'i gymharu â'r amcan: arbediad/ (dros ben) | Alldro |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gofyniad arian parod net | 4 | 12,867,493 | 12,792,506 | 74,987 | 12,796,722 |

**Costau gweinyddol 2012-13**

| | 2012-13 Amcan | 2012-13 Alldro | 2011-12 Alldro |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| 3 | 6,106 | 5,346 | 5,254 |

Mae'r ffigurau mewn print trwm yn gyfansymiau drwy bleidlais o dan reolaeth Seneddol. Hefyd, er nad yw'n derfyn pleidlais ar wahân, bydd gor-wario'r gyllideb weinyddol hefyd yn arwain

at bleidlais weddilliol.

Eglurir yr amrywiadau rhwng Amcan ac Alldro yn Nodyn 2 ac yn y Sylwebaeth Reoli ar dudalennau

Mae'r nodiadau ar dudalennau 62 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

| | Nodyn | 2012-13 Adran Graidd £000 | 2011-12 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau Gweinyddol:** | | | |
| Costau Staff | **6.1** | 3,056 | 3,155 |
| Costau gweinyddol eraill | **7** | 2,299 | 2,111 |
| Incwm gweithredol | **9** | (9) | (39) |
| **Costau Rhaglenni:** | | | |
| Costau Staff | **6.1** | | |
| Costau rhaglenni | **8** | 12,786,604 | 12,791,816 |
| Llog taladwy NLF | | 1,693 | 1,700 |
| Llog derbyniadwy NLF | | (1,693) | (1,700) |
| **Costau Gweithredol Net** | | **12,791,950** | **12,797,043** |
| Cyfanswm y Gwariant | | 12,791,959 | 12,797,082 |
| Cyfanswm yr Incwm | | (9) | (39) |
| **Costau Gweithredol Net** | | **12,791,950** | **12,797,043** |

### Gwariant Cynhwysfawr Arall

| | 2012-13 | 2011-12 |
|---|---|---|
| **Costau Gweithredol Net** | 12,791,950 | 12,797,043 |
| (Enillion) colledion net ar ôl ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer, Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | (95) | (485) |
| **Cyfanswm y Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013** | **12,791,855** | **12,796,558** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 62 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
# Ar 31 Mawrth 2013

| | Nodyn | 31 Mawrth 2013 £000 | 31 Mawrth 2012 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | 3,994 | 3,665 |
| Asedau ariannol | 12 | 11,554 | 11,613 |
| Derbyniadwyon sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 13 | 13 | 20 |
| ***Cyfanswm asedau anghyfredol*** | | 15,561 | 15,298 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Derbyniadwyon masnachol ac eraill | 13 | 223 | 276 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 14 | 389 | 232 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | 612 | 508 |
| **Cyfanswm Asedau** | | 16,173 | 15,806 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 15.1 | (1,297) | (1,528) |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | (1,297) | (1,528) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol net** | | **14,876** | **14,278** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 16 | (89) | (109) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 15.1 | (11,554) | (11,613) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | (11,643) | (11,722) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **3,233** | **2,556** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 635 | 49 |
| Cronfa ail-brisio | | 2,598 | 2,507 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **3,233** | **2,556** |

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro**

**25 Mehefin 2013**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 62 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad Llif Arian
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

| | Nodyn | 2012-13 £000 | 2011-12 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Costau gweithredol net | SOCNE | (12,791,950) | (12,797,043) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | 7 | 108 | 204 |
| (Cynnydd)/lleihad mewn derbyniadwyon masnachol ac eraill | 13.1 | 60 | 847 |
| *Llai: Symudiadau mewn derbyniadwyon yn ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr* | | 7 | (7) |
| Cynnydd/(lleihad) mewn taladwyon masnachol | 15.1 | (290) | (1,207) |
| *Llai: Symudiadau mewn taladwyon yn ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr* | | (105) | 689 |
| Defnydd o ddarpariaethau | | (20) | (20) |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol*** | | **(12,792,190)** | **(12,796,537)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 2.2 | (316) | (185) |
| (Ad-dalu benthyciadau) gan gyrff eraill | | 52 | 45 |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi*** | | **(264)** | **(140)** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) - y flwyddyn gyfredol | | 12,792,697 | 12,796,083 |
| Ad-dalu benthyciadau o'r NLF | | (52) | (45) |
| ***Ariannu net*** | | **12,792,645** | **12,796,038** |
| **Cynnydd / (lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | 191 | (639) |
| Derbyniadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol sydd y tu allan i sgôp gweithgareddau'r Adran | 5.2 | 21,046 | 29,144 |
| Taliadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | 5.2 | (21,080) | (29,110) |
| **Cynnydd / (lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **157** | **(605)** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 14 | **232** | **837** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 14 | **389** | **232** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 62 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Newidiadau (SC) mewn Ecwiti Trethdalwyr
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

| | Nodyn | Y Gronfa Gyffredinol £000 | Y Gronfa Ail-brisio £000 | Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2011** | | **369** | **2,041** | **2,410** |
| Newidiadau yn y polisi cyfrifyddu | | – | – | – |
| **Balans ar 1 Ebrill 2011** | | **369** | **2,041** | **2,410** |
| **Cyllid Seneddol Net** | | | | |
| – Wedi'i dynnu i lawr | | 12,796,083 | | 12,796,083 |
| – Tybiedig | | 830 | | 830 |
| Cyflenwad heb ei wario ac wedi'i dynnu i lawr sydd i'w ad-dalu i'r Gronfa Gyfunol | 15.1 | (198) | | (198) |
| CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 15.1 | (27) | | (27) |
| Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn | SOCNE | (12,797,043) | 485 | (12,796,558) |
| **Ffioedd heb fod yn arian parod** | | | | |
| – Tâl yr Archwilydd | 7 | 25 | | 25 |
| **Symudiadau Eraill Rhwng Cronfeydd** | | | | |
| – Asedau Sefydlog | | (48) | | (48) |
| – Ad-daliadau eraill a godir ar Adrannau'r Llywodraeth yn y flwyddyn flaenorol | | 39 | | 39 |
| **Symudiadau Rhwng y Cronfeydd** | | | | |
| – Arian wedi'i drosglwyddo rhwng cronfeydd | | 19 | (19) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | | **49** | **2,507** | **2,556** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2012** | | 49 | 2,507 | 2,556 |
| **Cyllid Seneddol Net** | | | | |
| – Wedi'i dynnu i lawr | SCF | 12,792,697 | | 12,792,697 |
| – Tybiedig | | 198 | | 198 |
| Cyflenwad heb ei wario ac wedi'i dynnu i lawr sydd i'w ad-dalu i'r Gronfa Gyfunol | 15.1 | (389) | | (389) |
| CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | | | – |
| Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn | SOCNE | (12,791,950) | | (12,791,950) |
| **Taliadau heb fod yn arian parod** | | | | |
| – Tâl yr Archwilydd | 7 | 26 | | 26 |
| **Symudiadau Eraill Rhwng y Cronfeydd** | | | | |
| – Asedau Sefydlog | | – | 95 | 95 |
| **Symudiadau Rhwng y Cronfeydd** | | | | |
| – Arian wedi'i drosglwyddo rhwng cronfeydd | | 4 | (4) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | | **635** | **2,598** | **3,233** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 62 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau ar y Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

## 1a) Datganiad polisi cyfrifyddu

### 1.1 Sail y paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM 2012–13 (FReM). Mae’r polisïau cyfrifyddu yn y FReM yn dilyn Safonau Rhyngwladol ar Adroddiadau Ariannol (IFRS) fel a addaswyd neu a ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Yn ogystal â’r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae’r FReM hefyd yn disgwyl i Swyddfa Cymru baratoi un datganiad sylfaenol arall. Mae’r Datganiad Cyflenwad Seneddol a’i nodiadau ategol yn adrodd yr Alldro Terfynol yn erbyn yr Amcan o ran y gofyniad adnoddau net a’r gofyniad arian parod net.

Yr arian cyfred a ddefnyddir ac a gyflwynir gan Swyddfa Cymru yw’r bunt sterling Brydeinig (£).

Lle mae’r FReM yn rhoi dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol Swyddfa Cymru er mwyn rhoi barn wir a theg. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi eu mabwysiadu gan Swyddfa Cymru isod. Cawsant eu cymhwyso’n gyson wrth ddelio ag eitemau y tybiwyd iddynt fod yn berthnasol i’r Cyfrifon hyn.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y Cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel a ddiwygiwyd i ystyried ail-brisio stocrestri ac asedau anghyfredol, lle mae’r rheini’n berthnasol.

### 1.3 Segmentau gweithredol

Ystyrir bod Swyddfa Cymru’n darparu un swyddogaeth ac, o ran adrodd o dan IFRS, ystyrir ei bod yn un segment gweithredol.

## 1.4. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

### *Sail y prisio*

Caiff asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar (PPE) eu datgan ar sail eu gwerth teg. Wrth eu cydnabod i ddechrau, caiff asedau PPE eu mesur ar sail cost gan gynnwys unrhyw gostau y dylid eu priodoli'n uniongyrchol i'w cael i weithio'n iawn.

### *Dull y prisio*

Mae gan Swyddfa Cymru un ased eiddo – Gwydyr House – sydd wedi'i gynnwys ar sail ei werth teg, fel a ddehonglir gan y FReM ac ar sail prisiad proffesiynol a gyflawnir unwaith bob pum mlynedd o leiaf.

Cyflawnir prisiadau proffesiynol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn defnyddio Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), a elwir y 'Llyfr Coch'.

Rhwng prisiadau proffesiynol, mae'r gwerthoedd ar bapur yn cael eu haddasu drwy ddefnyddio mynegeion neu drwy wneud prisiadau pen-desg.

Mae Gwydyr House wedi'i ddosbarthu fel adeilad rhestredig gradd 2* na ellir ei werthu ar y farchnad agored. Mae eiddo arbenigol yn cael ei brisio ar sail y gost o'i adnewyddu wedi dibrisio (DRC) ac ar sail cyfwerth cyfoes yn unol â'r Llyfr Coch, ar ôl ystyried darfodiad swyddogaeth yr eiddo. .

Mae asedau di-eiddo'n cael eu cynnwys ar sail eu cost pan brynir hwynt ac yn cael eu hail-ddatgan ar bob dyddiad adrodd yn defnyddio'r Mynegrifau Pris ar gyfer Cyfrifyddu Costau Cyfredol (PINCCA) a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### *Ail-brisio*

Pan fydd gwerth ar bapur ased yn cynyddu'n dilyn ail-brisio, mae'r cynnydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel ei fod yn gwrthdroi'r lleihad yn dilyn ailbrisio'r un ased a gafodd ei gydnabod yn flaenorol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Ail-brisio fel ecwiti Trethdalwyr.

Pan fydd gwerth ar bapur ased yn lleihau (ac eithrio o ganlyniad i leihad parhaol), mae'r lleihad yn cael ei gydnabod yn y Gronfa Ail-brisio fel bod balans yn bodoli yng nghyswllt yr ased hwnnw. Mae unrhyw leihad pellach sy'n fwy na'r gweddill ail-brisio'n cael ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Pob blwyddyn, mae'r gwahaniaeth rhwng dibrisio ar sail gwerth ar bapur (wedi'i ail-brisio) yr ased

a godir ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a'r dibrisiad ar sail cost wreiddiol

yr ased, yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Ail-brisio i'r Gronfa Gyffredinol.

*Trothwy Cyfalafu – asedau unigol*

Trothwy cyfalafu Swyddfa Cymru ar gyfer asedau unigol yw £1,000 (gan gynnwys TAW).

*Trothwy Cyfalafu – asedau grŵp*

Mae gan Swyddfa Cymru gronfa fach o asedau ar gyfer dodrefn a ffitiadau sydd wedi cael eu cyfalafu.

Mae Swyddfa Cymru'n cymhwyso trothwy cyfalafu ar gyfer asedau grŵp, sef £10,000 (gan gynnwys TAW).

*Dibrisio*

Mae dibrisio'n cael ei godi ar sail llinell syth ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau, llai eu hamcan-werth gweddilliol, yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig neu, ar gyfer asedau ar brydles, dros oes y brydles neu'r cyfnod sydd ymhlyg yn y rhaglen ad-dalu. Mae oes ddefnyddiol yr asedau neu'r categoriau asedau'n cael ei hadolygu'n flynyddol a chaiff unrhyw newidiadau eu trafod gyda'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod y goblygiadau cyllid wedi eu hystyried yn briodol. Lle cytunir ar newid yn oes ased, mae'r ased yn cael ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei oes fel a aseswyd. Mae dibrisio'n dechrau yn y mis ar ôl prynu ased anghyfredol ar gyfer tir, adeiladau a thai, ac o fewn y mis ar gyfer unrhyw asedau anghyfredol eraill.

Mae oes ddefnyddiol dybiedig ased o fewn yr ystodau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliad | Ddim yn cael ei ddibrisio |
| Adeiladau rhydd-ddaliad (gan gynnwys tai) | Yn cael eu dibrisio dros oes yr asedau (hyd at 60 mlynedd) |
| Asedau grŵp | Yn amrywio gan ddibynnu ar asedau unigol |
| Technoleg gwybodaeth | Y byrraf o dymor prydles sydd ar ôl neu rhwng 3 a 15 mlynedd |
| Peiriannau a chyfarpar | Y byrraf o dymor prydles sydd ar ôl neu rhwng 3 ac 20 mlynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | Y byrraf o dymor prydles sydd ar ôl neu rhwng 5 ac 20 mlynedd |
| Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu / creu | Ddim yn cael eu dibrisio |

Mae'r gwerthoedd ar bapur yn cael eu hadolygu ar gyfer amhariad os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu na ellir ad-ennill y gwerth ar bapur. Os tybir bod ased wedi dioddef amhariad, caiff yr ased ei ddileu'n syth i'r swm y gellir ei ad-ennill.

*Gwaredu asedau anghyfredol*

Caiff enillion a cholledion wrth waredu asedau anghyfredol eu pennu drwy gymharu'r elw gyda'r gwerth ar bapur a chaiff y rhain eu cydnabod o dan gostau Gweinyddol neu Raglenni, fel y bo'n briodol, yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Pan werthir yr asedau sydd wedi eu hail-brisio, caiff y symiau gafodd eu cynnwys yn y gronfa Ail-brisio eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.5 Asedau sydd wrthi'n cael eu creu

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu creu'n cael eu prisio ar sail eu cost hanesyddol ar gyfer eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau Anniriaethol, ac nid ydynt yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio. Mae ased yn peidio â bod yn ased sydd wrthi'n cael ei greu pan fydd yn barod i'w ddefnyddio. Mae ei werth ar bapur yna'n c ael ei dynnu o'r asedau sydd wrthi'n cael eu creu ac yn cael ei drosglwyddo i'r categori asedau perthnasol. Mae dibrisio ac amorteiddio yna'n cael ei godi ar yr ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu perthnasol.

Mae gwariant yn cael ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gael ased yn barod i'w ddefnyddio. Mae costau staff Swyddfa Cymru'n cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, felly hefyd costau asiantaeth a staff contract sy'n cyflawni rolau parhaus a fyddai, fel arall, yn cael eu cyflawni gan weision sifil. Mae gwariant ar ymgynghorwyr allanol a gyflogir ar brosiectau penodol yn cael ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gael ased yn barod i'w ddefnyddio.

## 1.6 Asedau Anniriaethol

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw asedau anniriaethol.

## 1.7 Prydlesi

*Prydlesi ariannol*

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw brydlesi ariannol.

*Prydlesi gweithredol*

Gelwir prydlesi lle mae'r holl risgiau a'r gwobrwyon, fwy neu lai, yn cael eu dal gan y prydlesydd, yn brydlesi gweithredol. Mae rhenti prydlesi gweithredol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

*Trefniadau sy'n cynnwys prydles*

Wrth benderfynu a yw Swyddfa Cymru'n barti mewn prydles, mae contractau nad ydynt ar ffurf prydles gyfreithiol ond sydd efallai'n cynnwys prydles ynddynt, er enghraifft trefniadau contractio allanol a chontractau cymryd-neu-dalu, yn cael eu hasesu'n unol â'r meini prawf a nodir gan IFRIC (Y Pwyllgor Rhyngwladol ar Ddehongli Adroddiadau Ariannol) 4 'Penderfynu A Yw Trefniant Yn Cynnwys Prydles'. Cyfrifir am y contract fel prydles os yw cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio ased neu asedau penodol ac mae'r trefniant yn rhoi hawl i ddefnyddio'r ased. Mae'r trefniant yna'n cael ei asesu o dan IAS 17 i benderfynu a yw'n cael ei ddosbarthu fel prydles weithredol neu brydles ariannol.

## 1.8 Buddsoddiadau

*Y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF)*

Mae blaensymiau o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF) yn cael eu trin fel buddsoddiadau ac yn cael eu datgelu ar sail eu cost hanesyddol. Mae'r balansau yn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau o'r NLF a fenthycwyd ymlaen gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn wreiddiol i Gorfforaeth Ddatblygu Canolbarth Cymru. Cawsant yna eu pasio ymalen i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn y 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan gafodd y DBRW ei ddirwyn i ben ym 1998. Ar ôl dileu'r WDA yn 2006, daeth Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ad-dalu'r prif swm a'r llog a chodir tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru. Mae symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru'n cael eu hildio i'r NLF. Mae balansau benthyciad heb eu talu'n cael eu cynnwys mewn Taladwyon masnachol ac eraill.

## 1.9 Buddion Gweithwyr

*Croniadau gwyliau gweithwyr*

O dan IAS 19 'Buddion Gweithwyr', gwneir croniadau ar gyfer gwyliau blynyddol ac oriau hyblyg nad yw'n cael ei gymryd. Ni wneir croniadau ar gyfer bonysau perfformiad oherwydd nid oedd y broses arfarnu flynyddol sy'n penderfynu tâl perfformiad wedi'i chytuno'n derfynol ar yr adeg y paratowyd y Cyfrifon hyn.

*Pensiynau*

Darperir ar gyfer gweithwyr blaenorol a phresennol o dan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Nid yw'r cynlluniau buddion diffinedig wedi eu hariannu ac maent yn anghyfrannol ac eithrio yng nghyswllt buddion dibynyddion. Mae'r Adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaeth gweithwyr drwy dalu i'r PCSPS symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r rhwymedigaeth am dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei chodi ar y PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffinedig, mae'r adran yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

*Costau gadael yn fuan*

Mae'n ofynnol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a Llywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion ar wahân i'r buddion PCSPS a LGPS arferol ar gyfer staff sy'n ymddeol yn gynnar, oni bai fod ymddeol wedi'i gymeradwyo ar seiliau meddygol. Darperir y gost gyfan yn llawn pan fydd y rhaglen gadael yn fuan wedi'i chyhoeddi ac mae'n rhwymo'r Weinyddiaeth Cyfiawnder neu Lywodraeth Cymru. Mae'r llif arian amangyfrifiedig, wedi addasu ar gyfer risg, yn cael ei ddisgowntio'n defnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EM sef 2.35% (2010-11: 2.8%) mewn termau real.

## 1.10 Incwm gweithredol

Mae incwm gweithredol yn cynnwys incwm wedi'i ddosbarthu er budd i wrthbwyso gwariant ac incwm cysylltiedig sy'n cael ei ildio ar ôl ei dderbyn i'r Gronfa Gyfunol fel Derbyniadau Ychwanegol.

## 1.11 Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol (CFERs)

Mae balansau CFERs yn cael eu cyfrifo ar sail croniadau, oni nodir yn wahanol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â symiau a dderbyniwyd yn wreiddiol gan gyrff datganoledig penodol yng Nghymru a ddynodwyd gan y Trysorlys o dan Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Telir y symiau hyn gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol a chodir ar Gronfa Gyfunol Cymru amdanynt. Mae Swyddfa Cymru hefyd yn derbyn symiau drwy adennill ernesau a gollwyd yn etholiadau'r Cynulliad. Mae Swyddfa Cymru'n talu'r symiau a dderbyniwyd i Gronfa Gyfunol y Deyrnas Unedig.

## 1.12 Gwariant Gweinyddol ac ar Raglenni

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys gwariant gweinyddol ar gostau rhedeg Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â gwariant rhaglen ar dreuliau'r Arglwydd Raglaw a'r grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 1.13 Costau heb fod yn arian parod

*Ffioedd Archwilio*

Mae costau heb fod yn arian parod yn cynnwys ffi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol NAO) am archwilio'r datganiadau ariannol.

## 1.14 Darpariaethau

Mae darpariaethau'n cael eu cydnabod pan fydd gan Swyddfa Cymru ymrwymiad cyfreithiol neu ymrwymiad adeiladol, o ganlyniad i ddigwyddiadau blaenorol, lle mae'n debyg y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r ymrwymiad, a lle gellir rhoi amcan dibynadwy o faint yr ymrwymiad hwnnw.

Mae darpariaethau'n adlewyrchu'r amcan gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad. Lle mae effaith disgowntio'n berthnasol, caiff y darpariaethau eu mesur ar sail eu gwerth presennol yn defnyddio'r gyfradd real a bennir gan Drysorlys EM, sef 2.2% ar hyn o bryd; yn 2011-12 roedd y gyfradd yn 2.6%.

## 1.15 Treth ar Werth (TAW)

Mae TAW na ellir ei adennill yn cael ei godi ar y categori gwariant perthnasol neu'n cael ei gynnwys yng nghostau prynu cyfalafedig unrhyw asedau anghyfredol. Lle codir treth allbwn neu lle gellir adennill treth mewnbwn, mae'r symiau'n cael eu datgan net o Dreth ar Werth.

## 1.16 Offerynnau Ariannol

Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n codi o gontractau i brynu a gwerthu eitemau anariannol (fel nwyddau neu wasanaethau), a luniwyd yn unol â gofynion prynu, gwerthu neu ddefnyddio arferol Swyddfa Cymru, yn cael eu cydnabod pan gaiff y rhain eu perfformio ac ar sail graddau'r perfformiad hwnnw. Mae unrhyw asedau a rhwymedigaethau ariannol eraill yn cael eu cydnabod pan ddaw Swyddfa Cymru'n barti i'r darpariaethau contractio i dderbyn neu wneud taliadau arian parod. Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dat-gydnabod pan fo'r contract perthnasol yn cael ei setlo, ei werthu, ei ganslo neu'n dod i ben.

*Dosbarthu a mesur – asedau ariannol*

Yn ogystal ag arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, mae gan Swyddfa Cymru ddau gategori o asedau ariannol:

*Benthyciadau a derbyniadwyon*

### 1.17 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod a gofnodir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Llif Arian yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon a gedwir gyda'r banciau, buddsoddiadau hylifol tymor byr eraill oedd i aeddfedu'n wreiddiol o fewn tri mis neu lai, a gorddrafftiau gyda'r banc.

### 1.18 Amcangyfrifon a thybiaethau cyfrifyddu sylweddol

Mae'r Cyfrifon yn adlewyrchu amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Fel yr awgryma'r enw, nid yw amcangyfrifon yn debygol o fod yr un fath ag union ganlyniadau. Mae amcangyfrifon yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys disgwyliadau ynghylch digwyddiadau i ddod y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Rhoddir sylw isod i'r amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i werth (ar bapur) asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

*Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau*

Mae'r darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau a adroddir yn nodyn 16 yn adlewyrchu'r farn am y tebygolrwydd y bydd buddion economaidd, yn y dyfodol, yn trosglwyddo o ganlyniad i ddigwyddiadau blaenorol. Lle mae'r tebygolrwydd y bydd rhwymedigaeth yn crisialu'n debygol o ddigwydd a lle mae'n bosibl mesur yr effaith yn eithaf sicr, mae darpariaeth yn cael ei chydnabod. Lle mae'r tebygolrwydd y bydd rhwymedigaeth yn crisialu'n bosibl, datgelir rhwymedigaeth wrth gefn.

*Cyfrifyddu prydlesi*

Mae angen ymarfer barn wrth gategoreiddio prydlesi naill ai fel prydlesi gweithredol neu brydlesi ariannol.

Lle mae prydles yn cael ei chymryd am dir ac adeiladau gyda'i gilydd, gellir cyfalafu'r elfennau tir ac adeiladau fel prydlesi ariannol ar wahân os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer prydles ariannol. Os nad yw'r taliadau prydles cytundebol yn cael eu rhannu rhwng y tir a'r adeiladau yng nghontract y brydles, mae'r rhaniad yn cael ei wneud ar sail gwerth marchnad y tir a'r adeiladau ar ddechrau'r brydles.

## 1.19 Safonau, diwygiadau a dehongliadau newydd a gyflwynwyd ond nad oeddent mewn grym am y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2012 ac na chawsant eu mabwysiadu'n fuan

Mae'n bosibl y gallai'r safonau, dehongliadau a'r diwygiadau newydd canlynol, na ddaethant i rym eto, gael effaith ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol.

IAS 19 Buddion pensiwn cyflogaeth (pensiynau) Post. Mae'r safon hon yn effeithiolam gyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013. Mae effaithar gyfrifon cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ac endidau eraill yn atgyfnerthubudd-dal diffiniedig. Gall Endidau hefyd yn cael eu heffeithio gan newidiadau i gyfrifyddugyfer budd-daliadau terfynu.

IFRS 9 - Offerynnau ariannol (mewn grym o'r cyfnodau cyfrifyddu'n dechrau ar neu ar ôl 2015 (yn unol â'r drafft datguddio; a gyhoeddwyd ar 4 Awst 2011 - heb ei fabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd eto). Mae gan y safon yma dri cham. Cam 1, materion dosbarthu a mesur; Cam 2, sut ddylid cyfrifo a chofnodi amhariad ar asedau ariannol; Cam 3, sy'n rhoi sylw i gyfrifyddu rhagfantoli. Bydd Trysorlys EM yn adolygu effaitho hyn IFRS ar adrannau'r llywodraeth pan fydd IFRS terfynol wedi'i gyhoeddi.

IFRS 13 - Mesur Gwerth Teg (mewn grym o 1 Ionawr 2013). Mae'r safon hon ynwedi cael ei baratoi i roi arweiniad cyson ar werthoedd mesur tegar gyfer yr holl falansau a thynnu dannedd dan IFRS perthnasol (ac eithrio pan IFRS 13yn datgan fel arall).

IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol (gwelliannau blynyddol 2009-11 ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013). Egluro'r gofynion ar gyfer gwybodaeth gymharol. Nid yw'r eglurhad hwn yn newid y gofynion sylfaenol.

IAS 16 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar (gwelliannau blynyddol 2009-11 ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013). Dosbarthu cyfarpar gwasanaethu - mae eitemau fel darnau sbâr, cyfarpar wrth gefn a chyfarpar gwasanaethu

ISA 32 Offerynnau Ariannol: Cyflwyno (gwelliannau blynyddol 2009-11 ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013). Effaith dreth dosbarthu i ddeiliaid offerynnau ecwiti. Disgwylir i'r FReM gymhwyso'r newid hwn yn llawn.

Ni ddisgwylir y bydd y safonau uchod sydd i'w mabwysiadu yn cael effaith sylweddol ar Swyddfa Cymru.

## 2 Dadansoddiad o'r alldro yn ôl adran

### 2.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net yn ôl adran

| | 2012-13 Alldro | | | | | | | 2012-13 Amcan | | 2011-12 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gweinyddu | | | Rhaglenni | | | | | |
| | Crynswth | Incwm | Cyfanswm Net | Crynswth | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm net o'i gymharu â'r Amcan | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant mewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | |
| **Gwariant wedi pleidlais** | | | | | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 4,813 | (9) | 4,804 | 57 | - | 57 | 4,861 | 5,480 | 619 | 4,959 |
| B Comisiwn ar Ddatganoli | 562 | - | 562 | - | - | - | 562 | 686 | 124 | 219 |
| **Cyfanswm y gwariant wedi pleidlais mewn DEL** | **5,375** | **(9)** | **5,366** | **57** | **-** | **57** | **5,423** | **6,166** | **743** | **5,178** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | | |
| **Gwariant wedi pleidlais** | | | | | | | | | | |
| C Darpariaethau | (20) | - | (20) | - | - | - | (20) | (20) | - | 109 |
| **Cyfanswm y gwariant wedi pleidlais mewn AME** | **(20)** | **-** | **(20)** | **-** | **-** | **-** | **(20)** | **(20)** | **-** | **109** |
| **Gwariant Di-Gyllideb** | | | | | | | | | | |
| D Grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | - | - | - | 12,786,547 | - | 12,786,547 | 12,786,547 | 12,860,823 | 74,276 | 12,791,783 |
| **Cyfanswm Amcan:** | - | - | - | 12,786,547 | - | 12,786,547 | 12,786,547 | 12,860,823 | 74,276 | 12,791,783 |
| **Ac o hwn:** | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr amcan-wariant wedi pleidlais** | **5,355** | **(9)** | **5,346** | **12,786,604** | **-** | **12,786,604** | **12,791,950** | **12,866,969** | **75,019** | **12,797,070** |

## 2.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf net yn ôl adran

| | 2012-13 Alldro | | | 2012-13 Amcan | | 2011-12 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Crynswth | Incwm | Net | Cyfanswm net | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcan | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant mewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | |
| **Gwariant wedi pleidlais** | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 316 | – | 316 | 724 | 408 | 185 |
| **Cyfanswm y gwariant wedi pleidlais mewn DEL** | 316 | – | 316 | 724 | 408 | 185 |
| **Cyfanswm yr amcan-wariant:** | **316** | – | **316** | **724** | **408** | **185** |
| **Ac o hwn:** | | | | | | |
| **Cyfanswm yr amcan-wariant wedi pleidlais** | **316** | – | **316** | **724** | **408** | **185** |

Eglurir amrywiadau sylweddol rhwng yr Amcan a'r Alldro ym Mhennod 5 – Sylwebaeth Reoli – yr Adroddiad Blynyddol.

## 3. Cysoni'r alldro â'r costau gweithredol net ac yn erbyn y Gyllideb Weinyddol.

### 3.1 Cysoni'r alldro adnoddau net â'r costau gweithredol net

| | | | 2012-13 | | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro | Amcan | Alldro o'i gymharu â'r amcan | Alldro |
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau yn y Datganiad o Gyflenwad Seneddol** | | | | | |
| Cyllideb | 2 | 5,403 | 6,146 | 743 | 5,287 |
| Di-Gyllideb | 2 | 12,786,547 | 12,860,823 | 74,276 | 12,791,783 |
| | | **12,791,950** | **12,866,969** | **75,019** | **12,797,070** |
| **Ychwaneger:** | | | | | |
| Grantiau cyfalaf (net o gyfraniadau gan yr Undeb Ewropeaidd) | | - | - | - | - |
| Arall | | - | - | - | - |
| **Llai:** | | | | | |
| Incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | - | - | - | (27) |
| Arall | | - | - | - | |
| | | **-** | | | **(27)** |
| **Costau Gweithredu Net yn y Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr (am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013)** | | **12,791,950** | **12,866,969** | **75,019** | **12,797,043** |

Mae Nodyn 2 yn rhoi dadansoddiad o'r tanwariant yn erbyn yr Amcan-Gyflenwad yn ôl is-benawdau. Rhoddir eglurhad o'r amrywiadau sylweddol rhwng yr Amcan a'r Alldro ym Mhennod 5 - Sylwebaeth Reoli.

## 3.2 Alldro yn erbyn y gyllideb weinyddol derfynol a'r costau gweithredol net gweinyddol

| | Nodyn | 2012-13<br>£000 | 2011-12<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Terfyn Amcan-gostau Gweinyddol | | 6,106 | 5,843 |
| Alldro – Costau Gweinyddol Crynswth | 2.1 | 5,355 | 5,266 |
| Alldro – Incwm crynswth yn gysylltiedig â chostau gweinyddol | | (9) | (12) |
| Alldro – costau gweinyddol net | 2.1 | 5,346 | 5,254 |
| Cysoni â'r costau gweithredol | | | |
| Llai: darpariaethau a ddefnyddiwyd (trosglwyddo o Raglenni) | | – | – |
| Llai: Arall | 5.1 | – | (27) |
| **Costau gweithredol net gweinyddol** | | **5,346** | **5,227** |

Mae'r rheolaeth Seneddol dros gostau gweinyddol yn berthnasol i adrannau yn unol â Phennod 11 y FReM.

## 4. Cysoni'r alldro adnoddau net yn erbyn y gofyniad arian parod net

| | Nodyn | Amcan | Alldro | Cyf. alldro net o'i gymharu â'r amcan arbediad / (dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Alldro adnoddau** | **2.1** | **12,866,969** | **12,791,950** | **75,019** |
| **Alldro cyfalaf** | **2.2** | **724** | **316** | **408** |
| **Addasiadau i groniadau ac arian parod** | | | | |
| *Addasiadau i ddileu eitem heb fod yn arian parod:* | | | | |
| Dibrisio | | (100) | (82) | (18) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | | | | |
| Darpariaeth Adrannaol Heb ei Dyrannu | | | | |
| Gwariant cyfalaf a gefnogir (refeniw) | | | | |
| Addasiadau Cyfnod Blaenorol | | | | |
| Eitemau eraill heb fod yn arian parod | | (120) | (26) | (94) |
| *Addasiadau ar gyfer NDPBs:* | | | | |
| Dileu adnoddau a chyfalaf wedi pleidlais | | | | |
| Ychwanegu cymorth grant arian parod | | | | |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:* | | | | |
| Cynnydd/(lleihad) mewn stoc | | | | |
| Cynnydd / (lleihad) mewn derbynadwyon | | | (67) | 67 |
| (Cynnydd) / lleihad mewn taladwyon | | | 395 | (395) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 16 | 20 | 20 | - |
| **Dileu eitemau cyllideb dim pleidlais:** | | | | |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol | | | | |
| **Gofyniad arian parod net** | | **12,867,493** | **12,792,506** | **74,987** |

## 5. Incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol

### 5.1 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Mae'r incwm canlynol yn ymwneud â'r adran ac yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir derbyniadau arian parod mewn teip italaidd)

| | | Alldro 2012-13 | | Alldro 2011-12 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Incwm | *Derbyn'au* | Incwm | *Derbyn'au* |
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm gweithredol y tu allan i gwmpasiad yr Amcan – Ernesau yn ôl yn dilyn Etholiadau'r Cynulliad | 9 | - | - | 27 | 27 |
| Incwm dros ben | 9 | | | | |
| **Cyfanswm incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | **-** | **-** | **27** | **27** |

### 5.2 Incwm o'r Gronfa Gyfunol

Nid yw incwm o'r Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 5.1 yn cynnwys unrhyw symiau a gesglir gan Swyddfa Cymru lle oedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach na phrif gorff. Y symiau a gasglwyd fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol (sydd wedi eu heithrio fel arall o'r datganiadau ariannol hyn) oedd:

| | 2012-13 | 2011-12 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | *21,046* | *29,110* |
| | **21,046** | **29,110** |
| Swm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol | **21,046** | **29,110** |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | - | - |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | 21,046 | 29,110 |
| Balans ymddiriedol ar ddiwedd y flwyddyn | | |

Mae'r incwm am 2012-13 yn codi o ad-dalu Benthyciadau Myfyrwyr o £20,929,000, Benthyciad Pont Cleddau £100,000, Tai Cymru £8,000, Llog Banc £6,000 ac Incwm Amrywiol arall £3,000

**Cyfanswm yr incwm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2013:**

| | 2012-13 |
|---|---|
| | £000 |
| Incwm o 2010-11 | 7 |
| Incwm o 2011-12 | 27 |
| Incwm o 2012-13 | 21,046 |
| | **21,080** |

## 6. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

### 6.1 Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

| | | | | | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol & Secondiadau Mewnol | Eraill | Gweinidogion | Staff Cynghori Arbennig | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol & misol | 2,249 | 83 | 96 | 43 | 2,471 | 2,593 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 179 | – | 8 | 6 | 193 | 202 |
| Costau pensiwn eraill | 383 | – | – | 9 | 392 | 412 |
| **Is-gyfanswm** | 2,811 | 83 | 104 | 58 | 3,056 | 3,207 |
| Llai symiau wedi eu hadennill yng nghyswllt secondiadau allanol | – | – | – | – | – | (52) |
| **Cyfanswm costau net** | **2,811** | **83** | **104** | **58** | **3,056** | **3,155** |
| Ac o'r rhain: | | | | | | |
| A godir ar gostau Gweinyddol | 2,811 | 83 | 104 | 58 | 3,056 | 3,155 |
| A godir ar gostau Rhaglenni | – | – | – | – | – | – |
| | **2,811** | **83** | **104** | **58** | **3,056** | **3,155** |

O'r symiau uchod, y rhai y gellir eu priodoli i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yw:–

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau wythnosol & misol | 152 | 4 | – | – | 156 | 100 |
| Costau nawdd cymd | 18 | – | – | – | 18 | 9 |
| Costau pensiwn eraill | 30 | – | – | – | 30 | 14 |
| **Is-gyfanswm** | **200** | **4** | **–** | **–** | **204** | **123** |
| Llai symiau wedi eu hadennill yng nghyswllt secondiadau allanol | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm costau net** | **200** | **4** | **–** | **–** | **204** | **123** |

## 6.2 Nifer gyfartalog o staff a gyflogir yn Swyddfa Cymru

Dangosir nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod.

| | | 31 Maw 2013 | 31 Maw 2012 |
|---|---|---|---|
| **Adran Graidd** | | | |
| | **Staff parhaol** | 52.0 | 54.0 |
| | **Eraill** | 1.0 | 1.0 |
| | **Gweinidogion** | 2.0 | 2.0 |
| | **Staff Cynghori arbennig** | 1.0 | 1.0 |
| | | – | – |
| | **Cyfanswm** | **56.0** | **58.0** |
| **Cyfanswm Adrannau Craidd** | | **56.0** | **58.0** |

Mae nifer gyfartalog y staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2013 yn cynnwys un aelod o staff asiantaeth (dros dro), 10 staff ar fenthyg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a 4 ar fenthyg gan Adrannau eraill y Llywodraeth. Hefyd, roedd 3 aelod o staff eraill ar fenthyciad wedi'i ariannu i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.

Cynllun buddion diffinedig aml-gyflogwr heb ei ariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) ond ni all Swyddfa Cymru nodi ei chyfran hi o'r asedau a'r rhwymedigaethau. Cyflawnwyd gwerthusiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2007 – gweler y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-dal Sifil, www.civilservice-pensions.gov.uk

Yn 2012-13, talwyd cyfraniadau pensiwn cyflogwr o £391k (2011-12: £412k) i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd rhwng 16.7% a 24.3% (2011-12: 16.7% a 24.3%) o'r cyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr pob 4 blynedd yn dilyn gwerthusiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gael eu cronni, nid pan achosir y costau mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Gall staff ddewis optio allan ac agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talodd y cyflogwr gyfraniadau o £0 (2011-12: £0) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiynau rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oed ac yn amrywio rhwng 3.0% a 12.5%( 2011-12: 3.0% a 12.5%) o'r cyflog pensiynau. Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu swm sy'n cyfateb i gyfraniad y gweithiwr hyd at 3.0% o'r cyflog penisynadwy.

Hefyd, talwyd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr cyfwerth â 0.8% o'r cyflog pensiynau i'r PCSPS i ddarparu ar gyfer y gost o dalu cyfansymiau os bydd staff yn marw mewn gwasanaeth a staff yn y cynllun PCSPS sy'n ymddeol ar sail iechyd.

Y cyfraniadau oedd yn ddyledus i ddarparwyr pensiynau partneriaeth ar ddyddiad y cyfnod adrodd oedd £0 (2011-12:£0)

Ni wnaeth unrhyw un ymddeol ar sail iechyd yn 2012-13 (2011-12: dim).

## 7. Costau Gweinyddol Eraill

| | Nodyn | Maw 31 2013<br>£000 | Maw 31 2012<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Swyddfeydd, cynnal a chadw & cyfleustodau | | 867 | 632 |
| Cyfathrebu, nwyddau swyddfa a gwasanaethau | | 76 | 101 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredol: Tir ac adeiladau | | 234 | 246 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredol: Eraill (peiriannau, peirianwaith, cerbydau ayb) | | 137 | 76 |
| Taliadau consesiynau gwasanaeth: Technoleg Gwybodaeth | | – | 6 |
| Taliadau consesiynau gwasanaeth: Eraill | | 28 | 20 |
| Gwasanaethau TG & Telathrebu (trefniadau consesiynau di-wasanaeth) | | 128 | 92 |
| Gwasanaethau eraill wedi eu contractio allan | | 24 | 17 |
| Ffioedd trawsgrifio | | 2 | – |
| Gwasanaethau proffesiynol | | 61 | 53 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 317 | 282 |
| Costau hyfforddiant a staff eraill | | 20 | 30 |
| Ffioedd a thaliadau banc | | 2 | 2 |
| Gwariant ymchwil a datblygu | | 67 | – |
| Gwariant gweinyddol arall | | 82 | 79 |
| Grantiau i elusennau | | – | 125 |
| Dyrannu gorbenion* | | 146 | 146 |
| **Eitemau heb fod yn arian parod** | | | |
| Dibrisio | | 82 | 70 |
| Tal a threuliau'r Archwilydd | | 26 | 25 |
| Darpariaethau yn ystod y flwyddyn | | – | 109 |
| **CYFANSWM** | | **2,299** | **2,111** |

***O'r symiau uchod, y rhai i'w priodoli i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yw:-***

| | Maw 31 2013<br>£000 | Maw 31 2012<br>£000 |
|---|---|---|
| Swyddfeydd, cynnal a chadw & cyfleustodau | 157 | 12 |
| Cyfathrebu, nwyddau swyddfa a gwasanaethau | – | 6 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredol: Tir ac adeiladau | 50 | – |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredol: Tir ac adeiladau | – | 4 |
| Taliadau consesiynau gwasanaeth: Technoleg Gwybodaeth | – | 2 |
| Gwasanaethau TG & Telathrebu (trefniadau consesiynau di-wasanaeth) | 1 | 22 |
| Ffioedd trawsgrifio | 2 | – |
| Teithio a chynhaliaeth | 29 | 11 |
| Costau hyfforddiant a chostau staff cysylltiedig | 12 | 1 |
| Gwariant ar ymchwil a datblygu | 67 | – |
| Gwariant gweinyddol arall | 40 | 38 |
| **CYFANSWM** | **358** | **96** |

## 8. Costau Rhaglenni

| | 31 Maw 2013 | 31 Maw 2012 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| ***Costau Rhaglenni - Swyddfa Cymru*** | | |
| Treuliau'r Arglwydd Raglaw | 57 | 33 |
| Ariannu Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 12,786,547 | 12,791,783 |
| **Cyfanswm Costau Rhaglenni** | **12,786,604** | **12,791,816** |

## 9. Incwm

| | | 31 Maw 2013 | 31 Maw 2012 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm rhenti | | 9 | 12 |
| **Cyfanswm incwm** | | **9** | **12** |
| **Yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | | |
| Incwm dros ben | 5.1 | - | - |
| Ernesau ddaeth yn ôl yn dilyn Etholiadau'r Cynulliad | 5.1 | - | 27 |
| **Cyfanswm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | **-** | **27** |
| **Prif Gyfanswm** | | **9** | **39** |
| Ac o hwn: | | | |
| Incwm gweinyddol | | 9 | 39 |
| **Cyfanswm** | | **9** | **39** |

## 10. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Tir | Adeiladau | Peiriannau & Cyfarpar | Dodrefn & Ffitiadau | Taliadau ar gyfrif & Asedau wrthi'n cael eu creu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2012-13** | | | | | | |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 2,584 | 1,176 | 140 | 80 | 67 | 4,047 |
| Ychwanegiadau | – | – | 9 | 156 | 151 | 316 |
| Ail-brisiadau | (24) | 118 | 3 | 1 | – | 98 |
| Ail-ddosbarthu'n Asedau i'w hail-werthu | – | 218 | – | – | (218) | – |
| Ail-ddatgan | – | – | – | – | – | – |
| Trosglwyddo | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **2,560** | **1,512** | **152** | **237** | **–** | **4,461** |
| **Dibrisio** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | – | (228) | (74) | (80) | – | (382) |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | – | (44) | (29) | (9) | – | (82) |
| Ail-brisiadau | – | – | (2) | (1) | – | (3) |
| Ail-ddosbarthu | – | – | – | – | – | – |
| Ail-ddatgan | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **–** | **(272)** | **(105)** | **(90)** | **–** | **(467)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013** | **2,560** | **1,240** | **47** | **147** | **–** | **3,994** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2012** | **2,584** | **948** | **66** | **–** | **67** | **3,665** |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| **Wedi eu perchenogi** | **2,560** | **1,240** | **47** | **147** | **–** | **3,994** |

## 10.a Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Tir | Adeiladau | Peiriannau & Cyfarpar | Dodrefn & Ffitiadau | Taliadau ar gyfrif & Asedau wrthi'n cael eu creu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2011-12** | | | | | | |
| **Cost neu brisio** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2011 | 2,116 | 961 | 139 | 102 | 130 | 3,448 |
| Ychwanegiadau | - | 118 | - | - | 67 | 185 |
| Ail-brisio / Amhariad | 484 | - | 1 | 1 | - | 486 |
| Ail-ddosbarthu | (16) | (33) | - | - | - | (49) |
| Ail-ddatgan | - | - | - | (23) | - | (23) |
| Trosglwyddo | - | 130 | - | - | (130) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2012** | **2,584** | **1,176** | **140** | **80** | **67** | **4,047** |
| **Dibrisio** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2011 | - | (186) | (46) | (103) | - | (335) |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | - | (42) | (28) | - | - | (70) |
| Ail-brisio / Amhariad | - | - | - | (1) | - | (1) |
| Ail-ddatgan | - | - | - | 24 | - | 24 |
| **Ar 31 Mawrth 2012** | **-** | **(228)** | **(74)** | **(80)** | **-** | **(382)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2012** | **2,584** | **948** | **66** | **-** | **67** | **3,665** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2011** | **2,116** | **775** | **93** | **(1 )** | **130** | **3,113** |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| **Wedi eu perchenogi** | **2,584** | **948** | **66** | **-** | **67** | **3,665** |

## 11. Offerynnau Ariannol

### 11.1 Categorïau o Offerynnau Ariannol

| | Nodyn | 31 Mawrth 2013<br>£'000 | 31 Mawrth 2012<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau Ariannol** | | | |
| Arian parod | 14 | 389 | 232 |
| ***Benthyciadau a Derbyniadwyon < 1bl.*** | | | |
| Derbyniadwyon eraill (crynswth) | 13.1 | 32 | 92 |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol - cyfalaf | 13.1 | 59 | 52 |
| ***Benthyciadau a Derbyniadwyon > 1bl.*** | | | |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol | 15.1 | 11,554 | 11,613 |
| **Gwerth ar bapur Asedau Ariannol** | | **12,034** | **11,989** |
| **Rhwymedigaethau Ariannol** | | | |
| ***Rhwymedigaethau Ariannol ar sail cost wedi'i hamorteiddio*** | | | |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol - cyfalaf | 15.1 | (11,613) | (11,665) |
| **Gwerth ar bapur Rhwymedigaethau Ariannol** | | **(11,613)** | **(11,665)** |

Drwy fod gofynion arian parod yr Adran yn cael eu cwrdd drwy'r broses Amcan(gyfrifon), mae offerynnau ariannol yn chwarae llai o ran mewn creu a rheoli risg nag a fyddai mewn corff heb fod yn un sector cyhoeddus o faint tebyg. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau am eitemau di-ariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr Adran, ac felly ychydig iawn o risg marchnad, hylifedd a chredyd y mae'r Adran yn agored iddi.

Mae blaensymiau gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF) yn cael eu trin fel buddsoddiadau ac yn cael eu datgelu ar sail cost hanesyddol. Mae'r balansau yn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau gan y NLF a fenthycwyd ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gorfforaeth Datblygu Cymru'n wreiddiol. Cawsant yna eu pasio i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DMRW) yn y 1980au; ac yna i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan gafodd y DBRW ei ddileu ym 1998. Ar ôl dileu'r WDA yn 2006, disgynnodd y cyfrifoldeb am ad-dalu'r prif swm a'r llog ar Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei godi ar Gronfa Gyfunol Cymru. Mae symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru'n cael eu hildio i'r NLF. Mae balansau benthyciad sydd heb eu talu'n cael eu cynnwys o dan Daladwyon masnachol ac eraill.

## 12. Buddsoddiadau

| | 31 Maw 2013 |
|---|---|
| | **Benthyciadau wedi eu hariannu gan y NLF** |
| | **£000** |
| **Balans ar 31 Maw 2012** | 11,613 |
| Trosglwyddo | (59) |
| **Balans ar 31 Maw 2013** | **11,554** |

## 13. Derbyniadwyon masnachol ac asedau cyfredol eraill

### 13.1 Dadansoddiad yn ôl math

| | Nodyn | 31 Maw 2013 £000 | 31 Maw 2012 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | | |
| Derbyniadwyon masnachol | | – | 16 |
| Derbyniadwyon TAW | | 22 | 31 |
| Adneuon a blaensymiau | | 3 | 2 |
| Derbyniadwyon eraill | | 7 | – |
| Rhagdliadau ac incwm cronnus | | – | 43 |
| Rhan gyfredol y benthyciad NLF – llog a dderbyniwyd | | 132 | 132 |
| Rhan gyfredol y benthyciad NLF – cyfalaf | 12 | 59 | 52 |
| **Cyfanswm derbyniadwyon** | | **223** | **276** |

| | Nodyn | 31 March 2013 £000 | 31 March 2012 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | | |
| Adneuon a blaensymiau | | 13 | 20 |
| **Cyfanswm derbyniadwyon** | | **13** | **20** |

### 13.2 Balansau Rhyng-Lywodraethol

| | Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Maw 2012 £000 | 31 Maw 2012 £000 | 31 Maw 2012 £000 | 31 Maw 2012 £000 |
| Balansau gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 219 | 231 | – | – |
| *Is-gyfanswm: balansau rhyng-lywodraethol* | 219 | 231 | – | – |
| Balansau gyda chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 4 | 45 | 13 | 20 |
| **Cyfanswm derbyniadwyon** | **223** | **276** | **13** | **20** |

## 14. Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 31 Maw 2013 | 31 Maw 2012 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2012 | 232 | 837 |
| Newid net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 157 | (605) |
| Balans ar 31 Mawrth 2013 | 389 | 232 |
| Roedd y balansau canlynol ar gadw gyda: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 388 | (20) |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 1 | 252 |
| **Cyfanswm** | **389** | **232** |

## 15. Taladwyon Masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

### 15.1 Dadansoddiad yn ôl math

| | Nodyn | 31 Maw 2013 £000 | 31 Maw 2012 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | | |
| Symiau treth a nawdd cymd. eraill | | 66 | 69 |
| Taladwyon masnachol | | 50 | 24 |
| Taladwyon eraill | | 79 | 49 |
| Croniadau | | 522 | 970 |
| Rhan gyfredol y benthyciad NLF – cyfalaf | 12 | 59 | 52 |
| Rhan gyfredol y benthyciad NLF – llog yn daladwy | | 132 | 132 |
| Symiau i'w cyflenwi o'r Gronfa Gyfunol ond heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn | | 389 | 198 |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol am incwm dros ben | | – | 34 |
| **Cyfanswm taladwyon** | | **1,297** | **1,528** |

| | Nodyn | 31 March 2013 £000 | 31 March 2012 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | | |
| Benthyciadau NLF | 12 | 11,554 | 11,613 |
| **Cyfanswm taladwyon** | | **11,554** | **11,613** |

### 15.2 Balansau Rhyng-Lywodraethol

| | Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Maw 2013 £000 | 31 Maw 2012 £000 | 31 Maw 2013 £000 | 31 Maw 2012 £000 |
| Balansau gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 1,121 | 984 | 11,554 | 11,613 |
| Balansau gydag awdurdodau lleol | – | – | – | – |
| Balansau gydag Ymddiriedolaethau'r GIG | – | – | – | – |
| Balansau gyda chorfforaethau cyheoddus a chronfeydd masnachol | 1 | 16 | – | – |
| *Is-gyfanswm: balansau rhyng-lywodraethol* | 1,122 | 1,000 | 11,554 | 11,613 |
| Balansau gyda chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 175 | 528 | – | – |
| **Cyfanswm taladwyon** | **1,297** | **1,528** | **11,554** | **11,613** |

## 16. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | Costau ymddeol yn gynnar | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2011 | – | – |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 129 | 129 |
| Darp'au nad oes eu hangen – wedi eu hadfer | – | – |
| Darp'au a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (20) | (20) |
| Datod disgownt | – | – |
| Balans ar 1 Ebrill 2012 | 109 | 109 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | – | – |
| Darp'au nad oes eu hangen – wedi eu hadfer | – | – |
| Darp'au a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (20) | (20) |
| Datod disgownt | – | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | **89** | **89** |

Costau ymddeol yn gynnar yw'r symiau a delir i gyn-aelodau staff lle caniateir iddynt ymddeol yn gynnar o'r gwasanaeth sifil. Telir y symiau hyn naill ai fel taliadau misol (taliadau ACP) hyd nes y byddant yn cyrraedd 60 oed, fel cyfansymiau neu fel cyfuniad o'r ddau. Mae ein Darparwr Pensiynau (MyCSP) yn rhoi amcan o'r symiau y dylid eu talu i'r unigolion hyn a gwneir darpariaethau ar gyfer y symiau hyn yn ein cyfrifon.

## 16.1 Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y llifau disgownt

| | Ymddeol yn Gynnar 2012-13 | Ymddeol yn Gynnar 2011-12 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 20 | 20 |
| Hwyrach na blwyddyn, nid hwyrach na 5 mlynedd | 69 | 89 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | – | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | **89** | **109** |

## 17. Ymrwymiadau o dan brydlesi

### Prydlesi gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn sy'n dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn, wedi eu dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r brydles i ben.

| | 31 Maw 2013 Adran Graidd £000 | 31 Maw 2012 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|
| **Mae'r ymrwymiadau o dan brydlesi yn cynnwys:** | | |
| **Tir & Adeiladau:** | | |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 130 | 42 |
| Hwyrach na blwyddyn, nid hwyrach na 5 mlynedd | 366 | – |
| Hwyrach na 5 mlynedd | 362 | – |
| **Cyfanswm** | 858 | 42 |
| **Eraill:** | | |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 88 | 81 |
| Hwyrach na blwyddyn, nid hwyrach na 5 mlynedd | 53 | 50 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | | – |
| **Cyfanswm** | 141 | 131 |
| **Prif Gyfanswm** | **999** | **173** |

Mae'r brydles tir ac adeiladau'n ymwneud â swyddfeydd dan brydles ar gyfer Swyddfa Cymru yng Nghaerdydd. Yn 2012–13, symudodd Swyddfa Cymru I swyddfeydd newydd dan brydles yng Nghaerdydd. Lluniodd yr Adran ddau gytundeb prydles ar wahân, ar gyfer gwahanol loriau yn y swyddfeydd newydd yng Nghaerdydd; un ar gyfer Swyddfa Cymru a'r llall ar gyfer y Comisiwn ar Ddatganoli. Mae gan brydles Swyddfa Cymru dymor cytundebol o 10 mlynedd, gyda chymal terfynu ar ôl 5 mlynedd; mae prydles y Comisiwn ar Ddatganoli yn un am 3 blynedd gyda chymal terfynu ar ôl 2 flynedd.

Mae'r prydlesi eraill ar gyfer offer swyddfa a phrydles ar gar Gweinidogol.

## 18. Rhwymedigaethau Wrth Gefn a ddatgelir o dan IAS 37

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw rwymedigaethau wrth gefn.

## 19. Trafodion partïon cysylltiedig

*Adrannau Cysylltiedig a Chyrff Llywodraeth Ganolog Eraill*

Mae Swyddfa Cymru'n ariannu Llywodraeth Cymru. Ystyrir bod Llywodraeth Cymru'n barti cysylltiedig y cafodd Swyddfa Cymru amryw o wahanol drafodion perthnasol gyda hi yn ystod y flwyddyn.

Hefyd, mae Swyddfa Cymru wedi cael nifer o drafodion sylweddol gydag adrannau eraill y llywodraeth, y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bennaf a chyrff eraill y llywodraeth ganolog.

Nid oes unrhyw drafodion gyda phartïon cysylltiedig eraill i adrodd arnynt.

## 20. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd', ystyrir digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad yr awdurdodir y Cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn i fod yr un dyddiad ag y caiff y Cyfrifon eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**Nid oes unrhyw 'Ddigwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd' sy'n berthnasol ac sydd angen eu datgelu.**

TSO
information & publishing solutions

Wedi'u cyhoeddi gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael gan:

**Ar-lein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**
TSO
Blwch SP 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau Cyffredinol: 0870 600 5522
Archebion trwy'r Linell Boeth Seneddol Lo-call 0845 7 023474
Archebion Ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0870 240 3701

**Y Siop Lyfrau Seneddol**
12 Bridge Street, Parliament Square [Sgwar y Senedd]
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau Cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion Ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac Asiantiaid Achrededig eraill**

ISBN 978-0102952544
9 780102 952544